



Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

2017 dccc 3

Nodiadau Esboniadol

Landfill Disposals Tax (Wales) Act 2017

2017 anaw 3

Explanatory Notes

£11.00



Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

2017 dccc 3

Nodiadau Esboniadol

Landfill Disposals Tax (Wales) Act 2017

2017 anaw 3

Explanatory Notes

DEDDF TRETH GWAREDIADAU TIRLENWI (CYMRU) 2017

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 27 Mehefin 2017 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 7 Medi 2017.
2. Fe'u lluniwyd gan Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni. Pan fo adran neu ran o adran yn hunanesboniadol ac nad ymddengys bod angen rhoi esboniad neu wneud sylw pellach arni, nis rhoddir.
3. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i wneud y Ddeddf hon yn rhinwedd y darpariaethau yn Rhannau 4 a 4A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 16A o Atodlen 7 iddi, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi'r cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth mewn perthynas â threthi datganoledig (gan gynnwys treth a godir ar warediadau tirlenwi a wneir yng Nghymru).

CRYNODEB A'R CEFNDIR

4. Hon yw'r drydedd o blith tair eitem o ddeddfwriaeth gysylltiedig. Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (DCRhT) oedd y cyntaf o'r darnau hynny o ddeddfwriaeth ac mae'n gosod y fframwaith cyfreithiol sy'n angenrheidiol ar gyfer y gyfundrefn o drethi datganoledig yng Nghymru, sy'n cwmpasu'r trefniadau ar gyfer casglu a rheoli trethi, gan gynnwys sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Prif swyddogaeth ACC fydd casglu a rheoli trethi datganoledig Cymru. Mae DCRhT hefyd yn cynnwys darpariaeth ynghylch:
 - a. y camau y gellir eu cymryd mewn perthynas â ffurflenni treth, gan gynnwys diwygiadau, ymholiadau ac asesiadau;
 - b. dyletswyddau personau sy'n dychwelyd ffurflen dreth o ran cadw cofnodion;
 - c. pwerau ymchwilio ACC;
 - d. cosbau a llog;
 - e. talu a gorfodi;
 - f. adolygiadau ac apelau; ac
 - g. pwerau sy'n ymwneud ag ymchwilio i droseddau.

LANDFILL DISPOSALS TAX (WALES) ACT 2017

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Landfill Disposals Tax (Wales) Act 2017 (“the Act”) which was passed by the National Assembly for Wales on 27 June 2017 and received Royal Assent on 7 September 2017.
2. They have been prepared by the Office of the First Minister and Cabinet Office of the Welsh Government in order to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it. Where a section or part of a section is self-explanatory and does not seem to require any further explanation or comment, none is provided.
3. The National Assembly for Wales has the power to make this Act by virtue of the provisions contained in Parts 4 and 4A of, and paragraph 16A of Schedule 7 to, the Government of Wales Act 2006 (“GoWA 2006”), as amended by the Wales Act 2014. These provisions give the National Assembly for Wales the legislative competence to make provision in relation to devolved taxes (which include a tax charged on disposals to landfill made in Wales).

SUMMARY AND BACKGROUND

4. This is the third of three related items of legislation. The Tax Collection and Management (Wales) Act 2016 (TCMA) was the first of these pieces of legislation and sets the legal framework necessary for the devolved tax regime in Wales, covering the arrangements for the collection and management of tax, including the establishment of the Welsh Revenue Authority (WRA), whose main function will be to collect and manage devolved Welsh taxes. TCMA also includes provision about:
 - a. steps that can be taken in relation to tax returns, including amendments, enquiries and assessments;
 - b. record keeping duties of persons making a tax return;
 - c. the investigatory powers of WRA;
 - d. penalties and interest;
 - e. payment and enforcement;
 - f. reviews and appeals; and
 - g. powers relating to the investigation of criminal offences.

5. Yr ail eitem o ddeddfwriaeth drethi yw Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (DTTT). Mae'r Ddeddf DTTT yn darparu y bydd Treth Trafodiadau Tir yn disodli Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru. TTT yw'r cyntaf o'r trethi datganoledig i ddod yn rhan o gylch gwaith ACC. Mae DTTT hefyd yn gwneud diwygiadau i DCRhT, gan gynnwys diwygiadau sy'n berthnasol i'r Ddeddf hon. Mae'r diwygiadau hynny'n cynnwys diwygiadau ym meysydd gohirio adennill trethi datganoledig; cosbau taliadau hwyr a llog taliadau hwyr; a chyflwyno Rheol Gyffredinol yn Erbyn Osgoi Trethi mewn perthynas â'r holl drethi datganoledig.
6. Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer sefydlu Treth Gwarediadau Tirlenwi (TGT), y rhagwelir y bydd yn disodli Treth Dirlenwi (TD) yng Nghymru o fis Ebrill 2018. Nodwyd y cyd-destun a'r cefndir i'r Ddeddf hon ym Mhennod 1 o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Datblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi*, a gyhoeddwyd ar 24 Chwefror 2015¹.
7. Yn gryno, mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i godi treth Gymreig ar warediadau tirlenwi yng Nghymru. At hynny, mae'n:
 - a. sefydlu TGT ac yn nodi pryd y gwneir gwarediad trethadwy;
 - b. darparu'r fframwaith statudol ar gyfer cyfrifoldebau trethdalwyr i ddychwelyd ffurflenni treth a chyfrifo eu rhwymedigaeth dreth;
 - c. nodi'r rhyddhadau a'r esemptiadau sydd ar gael rhag y dreth sydd i'w chodi, ac yn grymuso Gweinidogion Cymru i greu credydau treth drwy reoliadau;
 - d. nodi manylion y deunyddiau a'r cymysgeddau o ddeunyddiau a gaiff fod yn gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is os bodlonir amodau penodol;
 - e. nodi'r cosbau am beidio â chydymffurfio;
 - f. sefydlu trefn lle caniateir codi TGT ar warediad deunydd fel gwastraff a wneir mewn man heblaw safle tirlenwi awdurdodedig pe bai wedi bod yn ofynnol cael trwydded amgylcheddol ar gyfer y gwarediad o dan sylw ("gwarediad heb ei awdurdodi");
 - g. grymuso cyrff a enwir i rannu gwybodaeth gydag ACC i'w gynorthwyo i arfer ei swyddogaethau;
 - h. ehangu'r pwerau ymchwilio a roddir i ACC gan DCRhT fel y gall ACC gyflawni'r mathau o ymchwiliadau a all fod yn angenrheidiol er mwyn casglu TGT;
 - i. gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth iddynt arfer eu pwerau neu eu dyletswyddau o dan y Ddeddf hon, i roi sylw i'r amcan o leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru; a
 - j. gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a'i gyhoeddi.

¹ <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/datblygu-treth-gwarediadau-tirlenwi>

5. The second item of tax legislation is the Land Transaction Tax and Anti-avoidance of Devolved Taxes (Wales) Act 2017 (LTTA). The LTTA Act provides for Land Transaction Tax to replace Stamp Duty Land Tax in Wales and is the first of the devolved taxes to fall under WRA's remit. LTTA also makes amendments to TCMA, including amendments relevant to this Act. These include amendments in the areas of postponement of recovery of devolved taxes; late payment penalties and interest; and the introduction of a General Anti Avoidance Rule in relation to all devolved taxes.
6. This Act provides for the establishment of a Landfill Disposals Tax (LDT), which it is anticipated will replace Landfill Tax (Lft) in Wales from April 2018. The context and background to this Act was set out in Chapter 1 of the Welsh Government's consultation on *Developing a Landfill Disposals Tax*, published on 24 February 2015¹.
7. In summary the Act makes provision for a Welsh tax to be charged on disposals to landfill in Wales. Further, it:
 - a. establishes LDT and sets out when a taxable disposal is made;
 - b. provides the statutory framework for the responsibilities on taxpayers to make tax returns and calculate their tax liabilities;
 - c. sets out the reliefs and exemptions from the charge to tax that are available and empowers the Welsh Ministers to create tax credits through regulations;
 - d. sets out the details of the materials and mixtures of materials that may qualify for the lower rate of tax if specified conditions are met;
 - e. sets out penalties for non-compliance;
 - f. establishes that LDT may be chargeable on a disposal of material as waste made at a place other than at an authorised landfill site if an environmental permit would have been required for the disposal in question (an "unauthorised disposal");
 - g. empowers named bodies to share information with WRA to assist with the exercise of its functions and
 - h. expands the investigatory powers given to WRA by TCMA so that WRA can carry out the kinds of investigations that may be necessary in order to collect LDT;
 - i. places a duty on the Welsh Ministers, when exercising their powers or duties under the Act, to have regard to the objective of reducing landfill disposals in Wales; and
 - j. places a duty on the Welsh Ministers to prepare and publish a Landfill Disposals Tax Communities Scheme.

¹ <http://gov.wales/consultations/finance/landfill-disposals-tax/?status=closed&lang=en>

CYMHWYSO'R DDEDDF

8. Mae'r Ddeddf yn sefydlu treth ar warediadau tirlenwi yng Nghymru. ACC sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli'r dreth. Bydd gweithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn gyfrifol am gofrestru gydag ACC, rhoi hysbysiadau a thalu trethi ar yr holl warediadau perthnasol a wneir ar eu safle(oedd) tirlenwi. Bydd hynny'n cynnwys dychwelyd ffurflen dreth chwarterol a hunanasesir a thalu unrhyw dreth sy'n ddyledus erbyn diwrnod gwaith olaf y mis canlynol. Cyfrifir y rhwymedigaeth dreth drwy gyfeirio at bwysau trethadwy'r deunydd a waredir fel gwastraff drwy dirlenwi yng Nghymru. Cymhwysir cyfradd dreth is i ddeunyddiau cymwys neu gymysgeddau cymwys o ddeunyddiau a chymhwysir cyfradd safonol i bob deunydd arall. Ceir rhai esemptiadau a fydd yn golygu, os ydynt yn gymwys, nad oes unrhyw rwymedigaeth i dreth, a bod rhai rhyddhadau a allai effeithio ar ba un a oes treth i'w chodi, a swm y dreth a godir. Mae'r Ddeddf hefyd yn estyn cwmpas TGT i warediadau a wneir mewn mannau ac eithrio safleoedd tirlenwi awdurdodedig ("gwarediadau heb eu hawdurdodi") ac yn darparu ar gyfer cyfradd dreth ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi. Caiff holl gyfraddau treth TGT eu pennu drwy reoliadau.
9. Ar y lefel fwyaf sylfaenol, mae gweithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn gyfrifol am gofrestru ar gyfer pob gwarediad trethadwy a wneir ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig yng Nghymru, rhoi cyfrif amdanynt a thalu treth arnynt. Pan wneir gwarediad heb ei awdurdodi, mae gan ACC y pŵer i ddyroddi hysbysiad sy'n codi TGT ar berson am y gwarediad. Bydd yn ofynnol i berson y dyroddir hysbysiad codi treth iddo dalu'r dreth honno.

TROSOLWG CYFFREDINOL O'R DDEDDF

10. Ceir 98 o adrannau a phedair Atodlen i'r Ddeddf, ac mae wedi ei rannu'n chwe Rhan fel a ganlyn:

Rhan 1 - Trosolwg

Mae'r Rhan hon yn nodi sut y mae'r Ddeddf wedi ei strwythuro.

Rhan 2 - Y Dreth a Gwarediadau Trethadwy

Mae'r Rhan hon yn sefydlu TGT ac yn nodi'r cysyniadau sylfaenol sy'n sail i weithrediad y dreth.

Rhan 3 - Gwarediadau Trethadwy a Wneir ar Safleoedd Tirlenwi Awdurdodedig

Mae'r Rhan hon yn nodi pwy sy'n agored i dalu treth ar warediad trethadwy a wneir ar safle tirlenwi awdurdodedig; sut y caiff swm y dreth ei gyfrifo; y ddwy gyfradd dreth a gaiff fod yn gymwys i warediad o'r fath (sef y gyfradd safonol a'r gyfradd is); y rhyddhadau rhag treth y caniateir eu hawlio; y gweithdrefnau cofrestru a chyfrifyddu; y gofynion talu; a darpariaethau ar gyfer adennill treth. Mae'r Rhan hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n nodi pa ddeunyddiau a all fod yn gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is ac unrhyw amodau cysylltiedig y mae'n rhaid i'r deunyddiau hynny eu bodloni; Atodlen 2, sy'n nodi cynnwys y gofrestr o weithredwyr safleoedd tirlenwi; ac Atodlen 3, sy'n nodi cynnwys anfoneb dirlenwi.

APPLICATION OF THE ACT

8. The Act establishes a tax on disposals to landfill in Wales. The WRA is responsible for the collection and management of the tax. Landfill site operators in Wales will be responsible for registering with WRA, notifying and paying tax on all relevant disposals made at their landfill site(s). This will involve submitting a self-assessed quarterly tax return and paying any tax due by the last working day of the following month. The tax liability is calculated by reference to the taxable weight of the material being disposed of as waste by way of landfill in Wales. A lower tax rate will be applied to qualifying materials or qualifying mixtures of material and a standard rate will be applied to all other materials. There are some exemptions which, if applicable, will mean that there is no liability to tax, and some reliefs that may affect whether and how much tax is chargeable. The Act also extends the scope of LDT to disposals made other than at an authorised landfill site (“unauthorised disposals”) and provides for there to be an unauthorised disposals rate of tax. All LDT tax rates will be set through regulations.
9. At its most basic, landfill site operators in Wales are responsible for registering for, accounting for and paying tax on all taxable disposals made at authorised landfill sites in Wales. Where an unauthorised disposal occurs, WRA have power to issue a notice charging LDT on a person for the disposal. A person to whom a charging notice is issued will be required to pay that tax.

GENERAL OVERVIEW OF THE ACT

10. The Act comprises ninety eight sections and four Schedules and is divided into six Parts as follows:

Part 1 – Overview

This Part sets out how the Act is structured.

Part 2 – The Tax and Taxable Disposals

This Part establishes LDT and sets out the fundamental concepts that underpin the operation of the tax.

Part 3 – Taxable Disposals Made at Authorised Landfill Sites

This Part sets out who is liable to pay tax on a taxable disposal made at an authorised landfill site; how the amount of tax will be calculated ; the two tax rates that may apply to a disposal of this kind (the standard rate and the lower rate); the reliefs from tax that may be claimed; the registration and accounting procedures; the payment requirements; and provisions for the recovery of tax. This Part also introduces Schedule 1, which sets out which materials may qualify for the lower rate of tax and any related conditions that those materials must meet; Schedule 2, which sets out the contents of the register of landfill site operators; and Schedule 3, which sets out the contents of a landfill invoice.

Rhan 4 - Gwarediadau Trethadwy mewn Lleoedd heblaw Safleoedd Tirlenwi Awdurdodedig

Mae'r Rhan hon yn darparu y gall gwarediad hefyd fod yn ddarostyngedig i TGT os y'i gwneir yn rhywle heblaw safle tirlenwi awdurdodedig a'i fod yn warediad y mae trwydded amgylcheddol yn ofynnol ar ei gyfer. Gelwir gwarediad o'r fath yn "warediad heb ei awdurdodi". Mae'r Rhan hon yn nodi pwy a all fod yn agored i dreth ar warediadau sydd heb eu hawdurdodi; sut y rhoddir hysbysiad am rwymedigaeth i dreth; y gyfradd dreth a fydd yn gymwys i warediad o'r fath (sef y gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi); a'r gofynion o ran talu. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i dalu llog taliadau hwyr ar dreth nas talwyd.

Rhan 5 - Darpariaeth Atodol

Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth atodol sy'n gysylltiedig â'r dreth. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer credydau treth, darpariaeth ar gyfer creu a rheoleiddio manau nad ydynt at ddibenion gwaredu o fewn safle tirlenwi awdurdodedig, darpariaeth ar gyfer pwerau archwilio ychwanegol, a darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth a chosbau. Mae'r Rhan hon hefyd yn nodi sut y cymhwysir darpariaethau'r Ddeddf mewn achosion arbennig, megis pan fo safleoedd tirlenwi awdurdodedig yn cael eu gweithredu gan grwpiau corfforaethol neu bartneriaethau. Mae'r Rhan hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i'r amcan o leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf ac yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a'i gyhoeddi. Mae'r Rhan hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 4, sy'n nodi'r diwygiadau a wneir i DCRhT gan y Ddeddf hon.

Rhan 6 - Darpariaethau Terfynol

Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau ynghylch gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth, pwerau trosiannol, canlyniadol etc., cychwyn, dehongli a darpariaethau terfynol ac ategol eraill.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Rhan 1 - Trosolwg

11. Mae'r Rhan hon yn nodi sut y mae'r Ddeddf wedi ei threfnu ac yn rhoi crynodeb byr o bob Rhan.

Rhan 2 - Y Dreth a Gwarediadau Trethadwy

Pennod 1 - Treth Gwarediadau Tirlenwi

12. Mae adran 2 yn sefydlu treth o'r enw treth gwarediadau tirlenwi. Mae'r dreth yn cael ei chodi ar warediadau trethadwy ac mae ACC yn gyfrifol am gasglu a rheoli'r dreth.

Part 4 – Taxable Disposals Made at Places Other than Authorised Landfill Sites

This Part provides that a disposal can also be subject to LDT if it is made at a place other than an authorised landfill site and is a disposal for which an environmental permit is required. A disposal of this kind is referred to as an “unauthorised disposal”. This Part sets out who may be liable to tax on unauthorised disposals; how tax liability will be notified; the tax rate that will apply to a disposal of this kind (the unauthorised disposals rate); and the payment requirements. It also makes provision to require late payment interest to be paid on unpaid tax.

Part 5 – Supplementary Provision

This Part makes supplementary provision connected with the tax. This provision includes a power to provide for tax credits, provision for the creation and regulation of non-disposal areas within an authorised landfill site, provision for additional inspection powers, and provision about information sharing and penalties. This Part sets out how the Act’s provisions will apply in special cases, such as those in which authorised landfill sites are operated by corporate groups or partnerships. This Part requires the Welsh Ministers to have regard to the objective of reducing landfill disposals in Wales when exercising functions under the Act and requires the Welsh Ministers to prepare and publish a Landfill Disposals Tax Communities Scheme. This Part also introduces Schedule 4 which sets out the amendments that this Act makes to TCMA.

Part 6 – Final Provisions

This Part contains provisions on subordinate legislation procedures, transitional, consequential etc. powers, commencement, interpretation and other final and ancillary provisions.

COMMENTARY ON SECTIONS

Part 1 – Overview

11. This Part sets out how the Act is arranged and provides a brief summary of each of the Parts.

Part 2 – The Tax and Taxable Disposals

Chapter 1 – Landfill Disposals Tax

12. Section 2 establishes a tax, called landfill disposals tax. The tax is charged on taxable disposals and WRA is responsible for collecting and managing the tax.

Pennod 2 – Gwarediadau Trethadwy

Adrannau 3 i 5 – Gwarediadau trethadwy; gwaredu deunydd drwy dirlenwi; a safleoedd tirlenwi awdurdodedig a thrwyddedau amgylcheddol

13. Mae'r adrannau hyn yn nodi beth yw gwarediad trethadwy. Mae gwarediad trethadwy yn digwydd pan fydd yr holl amodau a ganlyn wedi eu bodloni:
- bod deunydd yn cael ei waredu drwy dirlenwi (a ddiffinnir gan adran 4 fel pan fo'n cael ei ddodi ar wyneb y tir neu o dan wyneb y tir);
 - bod y tir lle gwneir y gwarediad:
 - yn safle tirlenwi awdurdodedig (fel y'i diffinnir yn adran 5(1)), neu
 - nad yw'n safle tirlenwi awdurdodedig, nac yn rhan o safle o'r fath, ond bod trwydded amgylcheddol (fel y'i diffinnir yn adran 5(2)) yn ofynnol ar gyfer y gwarediad;
 - bod y deunydd yn cael ei waredu fel gwastraff (fel y diffinnir hynny yn adrannau 6 a 7); a
 - bod y gwarediad yn cael ei wneud yng Nghymru.
14. Caiff rheoliadau addasu ystyr gwaredu deunydd drwy dirlenwi fel y'i nodir yn adran 4.

Adran 6 – Gwaredu deunydd fel gwastraff

15. Effaith yr adran hon yw bod gwarediad deunydd yn warediad o wastraff os yw'r person sy'n gyfrifol am y gwarediad yn bwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu. Gellir dod i'r casgliad y bwriedir bwrw'r deunydd o'r neilltu ar sail amgylchiadau ei waredu, ac yn benodol ar sail y ffaith bod y deunydd wedi ei ddodi mewn man gwarediadau tirlenwi, megis gwagle a ddefnyddir yn gyffredinol ar gyfer gwarediadau tirlenwi ar safle. Un yn unig o'r pedwar amod y mae'n rhaid ei fodloni er mwyn i atebolrwydd i dreth godi (gweler adran 3) yw'r bwriad i fwrw o'r neilltu (pa un a ddeuir i gasgliad ynghylch y bwriad hwnnw ai peidio).
16. Nid yw'r ffaith bod person yn gwneud defnydd dros dro neu ddefnydd atodol o ddeunydd a ddodir mewn man gwarediadau tirlenwi, neu'n cael budd ohono (neu o unrhyw beth, megis nwy, a allyrrir ohono), yn rhwystro'r person hwnnw, o anghenraid, rhag bwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu. Mae is-adran (3) yn egluro y gall person fwriadu bwrw deunydd o'r neilltu hyd yn oed os yw'n cael ei ddefnyddio. Mewn achos o'r fath (a phan fodlonir yr amodau eraill yn y adran 3), mae'r dreth i'w chodi ar waredu'r deunydd hwnnw.
17. Caiff rheoliadau addasu ystyr gwaredu deunydd fel gwastraff fel y'i nodir yn adran 6.

Adran 7 – Gwaredu deunydd fel gwastraff: person sy'n gyfrifol am warediad

18. Mae'r adran hon yn nodi'r person sy'n gyfrifol am warediad at ddibenion adran 6. Bwriad y person hwn sy'n berthnasol wrth benderfynu a yw gwarediad yn warediad deunydd fel gwastraff.

Chapter 2 – Taxable Disposals

Sections 3 to 5 - Taxable disposals; disposal of material by way of landfill; and authorised landfill sites and environmental permits

13. These sections set out what a taxable disposal is. A taxable disposal takes place when all of the following conditions are met:
- a. Material is disposed of by way of landfill (which section 4 defines as being when it is deposited on or under the surface of land);
 - b. The land where the material is deposited:
 - is an authorised landfill site (as defined in section 5(1)), or
 - is not or does not form part of an authorised landfill site, but the disposal requires an environmental permit (as defined in section 5(2));
 - c. The material is disposed of as waste (as defined in sections 6 and 7); and
 - d. The disposal takes place in Wales.
14. Regulations may modify the meaning of a disposal of material by way of landfill as set out in section 4.

Section 6 – Disposal of material as waste

15. The effect of this section is that a disposal of material is a disposal of waste if the person responsible for the disposal intends to discard the material. An intention to discard may be inferred from the circumstances of the disposal and in particular from the deposit of material into a landfill disposal area, such as a void, that is generally used for landfill disposals on a site. An intention to discard (whether inferred or not) is only one of the four conditions that must be met for a tax liability to arise (see section 3).
16. The fact that a person makes a temporary or incidental use of material deposited in a landfill disposals area, or derives a benefit from it (or anything, such as gas, emitted by it), does not necessarily prevent that person from intending to discard the material. Subsection (3) clarifies that a person may intend to discard material, even though it is being used. Where that is the case (and the other conditions in section 3 are met), the tax is chargeable on the disposal of that material.
17. Regulations may modify the meaning of a disposal of material as waste as set out in section 6.

Section 7 - Disposal of material as waste: person responsible for disposal

18. This section identifies the person responsible for a disposal for the purposes of section 6. It is this person's intention that is relevant in determining whether a disposal is a disposal of material as waste.

19. Mae'r adran hon yn darparu mai gweithredwr y safle tirlenwi yw'r person sy'n gyfrifol am y gwarediad, fel arfer, os caiff ei wneud ar safle tirlenwi awdurdodedig. Os yw'r gweithredwr yn bwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu, ac y gwneir y gwarediad gyda chaniatâd y gweithredwr, bydd y gwarediad yn warediad deunydd fel gwastraff. Fodd bynnag, os caiff gwarediad ei wneud ar y safle heb ganiatâd gweithredwr y safle tirlenwi, y person sy'n gwaredu'r deunydd yw'r person sy'n gyfrifol am y gwarediad. Os yw'r person hwnnw'n bwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu, bydd y gwarediad yn warediad deunydd fel gwastraff, ni waeth beth yw bwriad y gweithredwr. Mae adran 13 (personau y mae'r dreth i'w chodi arnynt) yn ei gwneud yn glir y bydd gweithredwr safle tirlenwi yn agored i dalu treth ar warediad a wneir ar y safle, hyd yn oed os person arall a wnaeth y gwarediad. Felly, os gwneir gwarediad y tu allan i oriau arferol, heb ganiatâd gweithredwr y safle tirlenwi, gan berson a oedd yn bwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu, gweithredwr y safle tirlenwi fydd yn agored i dalu'r dreth ar y gwarediad.
20. Os gwneir gwarediad heb ei awdurdodi (hynny yw, gwarediad trethadwy a wneir yn rhywle heblaw safle tirlenwi awdurdodedig - gweler adran 3) y person sy'n gyfrifol am y gwarediad yw'r person sy'n gwaredu'r deunydd. Mae Rhan 4 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer codi treth mewn perthynas â gwarediadau heb eu hawdurdodi.

Adran 8 - Gweithgarwch safle tirlenwi i'w drin fel gwarediad trethadwy

21. Mae'r adran hon yn rhestru'r mathau o weithgarwch safle tirlenwi (fel y'i diffinnir yn adran 96) sydd i'w categoreiddio fel gweithgarwch safle tirlenwi penodedig, ac sydd felly'n cael eu trin fel gwarediadau trethadwy. Os yw gweithgarwch yn weithgarwch safle tirlenwi penodedig fel y'i rhestrir yn adran 8(3)(a) i (i), ac y caiff ei gyflawni yng Nghymru, caiff ei drin fel gwarediad trethadwy ni waeth pa un a fyddai'r gwarediad, fel arall, wedi bodloni'r amodau a nodir yn adran 3 ai peidio. Mae'r adran hon hefyd yn darparu bod y gwarediad i'w drin fel ei fod yn cael ei gyflawni pan ddefnyddir deunydd am y tro cyntaf mewn perthynas â gweithgarwch penodedig. Felly, er enghraifft, byddai'r adeg pan ddefnyddir deunydd am y tro cyntaf i greu ffordd dros dro yn achosi gwarediad trethadwy, a phe bai deunydd pellach yn cael ei ddefnyddio wedi hynny i gynnal a chadw neu atgyweirio'r ffordd honno, byddai'r deunydd hwnnw'n destun gwarediad trethadwy ar y dyddiad y'i defnyddir.
22. Mae adran 8(3)(e) yn cyfeirio at ddefnyddio deunydd i orchuddio man gwarediadau tirlenwi yn ystod cyfnod pan fo gwarediadau tirlenwi yn dod i ben dros dro. Adwaenir hyn yn aml fel gorchudd dyddiol, a chaiff ei ddefnyddio i atal sbwriel a phlâu.
23. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ychwanegu, addasu neu dynnu ymaith weithgarwch safle tirlenwi penodedig. Er bod y rhestr gyfredol yn adran 8(3) yn cynnwys gweithgarwch a gyflawnir ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig, gallai rheoliadau ddarparu i weithgarwch a gyflawnir ar safleoedd heb eu hawdurdodi fod yn weithgarwch safle tirlenwi penodedig hefyd. Mae hyn yn darparu hyblygrwydd ychwanegol i fynd i'r afael ag unrhyw ymgais i osgoi talu treth gan y rheini sy'n gyfrifol am waredu gwastraff heb ei awdurdodi.

19. The section provides that where a disposal is made at an authorised landfill site, the landfill site operator is normally the person responsible for the disposal. If the operator intends to discard the material and the disposal is made with the operator's permission, the disposal will be a disposal of material as waste. However, where a disposal is made at the site without the permission of the landfill site operator, the person responsible for the disposal is the person who disposes of the material. If that person intends to discard the material, the disposal will be a disposal of material as waste, regardless of the operator's intention. Section 13 (persons chargeable to tax) makes it clear that a landfill site operator will be liable for tax on a disposal made at the site, even if another person made the disposal. So if a disposal is made out of hours, without the permission of the landfill site operator, by a person who intended to discard the material, the landfill site operator will be liable to pay tax on the disposal .
20. Where a disposal is an unauthorised disposal (i.e. is a taxable disposal made other than at an authorised landfill site - see section 3) the person responsible for the disposal is the person who disposes of the material. Part 4 sets out the procedure for imposing a charge to tax in relation to unauthorised disposals.

Section 8 - Landfill site activities to be treated as taxable disposals

21. This section lists landfill site activities (as defined in section 96) that are to be categorised as specified landfill site activities and therefore treated as taxable disposals. If an activity is a specified landfill site activity as listed in 8(3)(a) to (i) and takes place in Wales, then it is treated as a taxable disposal regardless of whether the disposal would have otherwise have met the conditions as set out at section 3. This section also provides that the disposal is to be treated as taking place when material is first used in relation to a specified activity. So, for example, the point at which material was used to create a temporary road would trigger a taxable disposal and if further material was subsequently used to maintain or repair that road, that material would be the subject of a taxable disposal on the date on which it was used.
22. Section 8(3)(e) refers to using material to cover a landfill disposal area during a temporary cessation in landfill disposals. This is often commonly known as daily cover and is used to prevent litter and pests.
23. The Welsh Ministers may, by regulations, add, modify or remove a specified landfill site activity. While the current list at section 8(3) consists of activities carried out at authorised landfill sites, regulations could provide for activities carried out at unauthorised sites to be specified landfill site activities too. This provides additional flexibility to address any attempts to avoid paying tax by those liable for unauthorised disposals of waste.

Pennod 3 – Gwarediadau Esempt

Adrannau 9 i 12 – Esemptiadau: cyffredinol; gwarediadau lluosog deunydd ar yr un safle; mynwentydd anifeiliaid anwes; a phŵer i addasu esemptiadau

24. Mae'r adrannau hyn yn esemptio mathau penodol o warediadau rhag y dreth. Pan fo gwarediad yn esempt, nid oes angen i weithredwr y safle tirlenwi roi cyfrif am waredu'r deunydd.
25. Mae adran 10 yn darparu esemptiad ar gyfer gwaredu deunydd pan fo'r deunydd eisoes wedi ei gynnwys mewn gwarediad yr oedd TGT i'w chodi arno a phan wneir y gwarediad dilynol ar yr un safle tirlenwi awdurdodedig. Effaith y ddarpariaeth hon yw sicrhau mai dim ond unwaith y codir TGT pan wneir gwarediadau lluosog o'r un deunydd ar yr un safle awdurdodedig.
26. Rhagwelir y gallai'r esemptiad hwn fod yn gymwys yng nghyd-destun gweithgarwch safle tirlenwi penodedig, pan allai deunydd a ddefnyddiwyd mewn un gweithgarwch safle tirlenwi penodedig gael ei symud a'i ddefnyddio mewn gweithgarwch safle tirlenwi penodedig arall a/neu ei waredu mewn man gwarediadau tirlenwi ar yr un safle, megis gwagle ar yr un safle. Yn y sefyllfa hon, mae'r esemptiad yn sicrhau mai dim ond unwaith y caiff treth ei chodi ar y deunydd.
27. Mae adran 11 yn darparu esemptiad ar gyfer gwaredu deunydd sy'n cynnwys dim ond gweddillion anifeiliaid anwes meirw ac unrhyw gynhwysydd neu ddeunydd sy'n eu cynnwys, ar yr amod bod y gwarediad yn digwydd ar safle tirlenwi lle nad oes unrhyw fathau eraill o warediadau yn digwydd (sef safle a elwir fel arfer yn fynwent anifeiliaid anwes). Nod yr esemptiad hwn yw sicrhau na fydd mynwentydd anifeiliaid anwes sydd ond yn derbyn gwarediadau carcasau neu ludw anifeiliaid anwes meirw (ac unrhyw flwch neu wrn sy'n eu cynnwys) yn agored i dalu TGT.
28. Nid yw'r esemptiadau a nodir yn adrannau 10 ac 11 ond yn gymwys i warediadau ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig. Caiff Gweinidogion Cymru, fodd bynnag, ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 12 i ychwanegu, i addasu neu i ddileu esemptiadau mewn perthynas â gwarediadau ar safleoedd heb eu hawdurdodi, yn ogystal â gwarediadau ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau i osod amodau ar gymhwyso esemptiad.

Rhan 3 – Gwarediadau Trethadwy a Wneir ar Safleoedd Tirlenwi Awdurdodedig

Pennod 1 – Personau y mae'r Dreth i'w Chodi Arnynt

29. Mae adran 13 yn egluro mai'r person sy'n agored i dalu'r dreth, yn achos gwarediadau a wneir ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig, yw gweithredwr y safle tirlenwi ar yr adeg y gwneir y gwarediad perthnasol.

Chapter 3 - Exempt Disposals

Sections 9 to 12 - Exemptions: general; multiple disposals of material at same site; pet cemeteries; and power to modify exemptions

24. These sections exempt certain types of disposals from the tax. Where a disposal is exempt, there is no need for the landfill site operator to account for the disposal of material.
25. Section 10 provides an exemption for a disposal of material where the material has previously been included in a disposal on which LDT was chargeable and where the subsequent disposal is made at the same authorised landfill site. The effect of this provision is to ensure that multiple disposals of the same material at the same authorised site will only be chargeable to LDT once.
26. It is anticipated that this exemption could be applicable in the context of specified landfill site activities, where material that has been used in one specified landfill site activity could be removed and used in another specified landfill site activity and/or disposed of in a landfill disposal area, such as a void at the same site. In this situation, the exemption ensures that the material is only taxed once.
27. Section 11 provides an exemption for a disposal of material consisting entirely of the remains of dead pets and any container or material in which they are contained, provided that the disposal takes place on a landfill site where no other types of disposal take place (generally known as a pet cemetery). This exemption is designed to ensure that pet cemeteries that accept only disposals of dead pet carcasses or ashes (and any box or urn in which they are contained) will not be liable to pay LDT.
28. The exemptions set out at sections 10 and 11 apply only to disposals at authorised landfill sites. However, the Welsh Ministers may use the regulation making power under section 12 to add, modify or remove exemptions in relation to disposals at unauthorised sites, as well as disposals at authorised landfill sites. The Welsh Ministers may also use the regulation making power to place conditions on the application of an exemption.

Part 3 - Taxable Disposals Made at Authorised Landfill Sites

Chapter 1 - Persons Chargeable to Tax

29. Section 13 explains that for disposals made at authorised landfill sites, the person liable for paying the tax is the landfill site operator at the time the relevant disposal takes place.

30. Os oes dau neu ragor o bersonau yn agored i dalu'r dreth, bydd ACC yn gallu cymryd camau i adennill unrhyw TGT sy'n ddyledus gan bob un ohonynt, neu gan unrhyw un neu ragor ohonynt. Er enghraifft, os yw safle tirlenwi yn cael ei weithredu gan bersonau sy'n rhedeg busnes fel partneriaeth, mae pob partner ar adeg y gwarediad perthnasol yn agored ar y cyd ac yn unigol i dalu TGT (hynny yw, os nad oes gan unrhyw un neu ragor o'r partneriaid ddigon o arian neu asedau i dalu cyfran gyfartal, rhaid i'r partneriaid eraill dalu'r gweddill) (gweler adran 83).

Pennod 2 - Y Dreth sydd i'w Chodi ar Warediadau Trethadwy

Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi

Adran 14 - Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi ar warediad trethadwy

31. Mae'r adran hon yn nodi'r dull o gyfrifo swm y dreth sydd i'w godi ar warediad trethadwy a wneir ar safle tirlenwi awdurdodedig. Mae'n darparu y bydd cyfradd safonol o TGT a chyfradd is o TGT, a fydd yn gymwys i ddeunydd cymwys (fel y'i diffinnir yn adran 15) a chymysgeddau cymwys o ddeunyddiau (fel y'u diffinnir yn adran 16); ac y bydd cyfraddau'r dreth yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau.
32. Cyfrifoldeb gweithredwr y safle tirlenwi yw sicrhau y caiff y gyfradd dreth gywir ei chodi ac y telir y swm cywir o dreth i ACC ar gyfer pob gwarediad ar ei safle.

Deunyddiau cymwys a chymysgeddau cymwys o ddeunyddiau

Adran 15 - Deunydd cymwys

33. Mae'r adran hon yn nodi o dan ba amgylchiadau y bydd deunydd yn gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is. Yn gyntaf, mae angen i'r deunydd fod wedi ei restru yn y Tabl yn Atodlen 1. Yn ail, bydd angen bodloni pob amod cymwys (os oes rhai) a nodir yn y Tabl yn Atodlen 1. Yn drydydd, rhaid i weithredwyr safle tirlenwi gadw disgrifiad ysgrifenedig o'r deunydd, y cyfeirir ato'n aml fel nodyn trosglwyddo gwastraff, os yw dogfen o'r fath yn ofynnol gan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 neu, os nad yw'n ofynnol, dystiolaeth arall sy'n dangos bod y deunydd mewn gwirionedd yn ddeunydd cymwys. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio Atodlen 1.

Adran 16 - Cymysgeddau cymwys o ddeunyddiau

34. Mae'r adran hon yn nodi'r profion y mae'n rhaid i gymysgedd o ddeunyddiau eu bodloni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y gyfradd TGT is. Mae gofynion 1-6 yn gymwys i bob cymysgedd cymwys ac mae gofyniad 7 yn darparu ar gyfer y posibilrwydd y bydd gofynion ychwanegol i'w bodloni pan fo'r cymysgedd yn cynnwys gronynnau mân.
35. Dylid nodi bod gofyniad 1 yn darparu bod rhaid i'r llwyth fod ar ffurf un deunydd cymwys neu ragor a swm bychan yn unig o ddeunydd anghymwys sy'n atodol i'r deunydd cymwys. Mae is-adran (2) yn nodi materion y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a yw swm o ddeunydd anghymwys yn swm bychan, ac a yw'n atodol i'r deunyddiau cymwys ai peidio.

30. If there are two or more persons liable, then WRA will be able to take steps to recover any outstanding LDT from all or any of them. As an example, if a landfill site is operated by persons carrying on business in partnership, then all partners at the time of the relevant disposal are jointly and severally liable to pay LDT (i.e. if any of the partners do not have enough money or assets to cover an equal share then the other partners must make up the difference) (see section 83).

Chapter 2 - Tax Chargeable on Taxable Disposals

Calculation of tax chargeable

Section 14 - Calculation of tax chargeable on taxable disposal

31. This section sets out how the amount of tax will be calculated for a taxable disposal at an authorised landfill site. It provides that there will be a standard rate of LDT and a lower rate of LDT, which will apply to qualifying materials (as defined in section 15) and qualifying mixtures of materials (as defined in section 16); and that the tax rates will be prescribed in regulations.
32. It is the responsibility of the landfill site operator to ensure the correct tax rate is applied and the right amount of tax is paid to WRA for each disposal at their site.

Qualifying materials and qualifying mixtures of materials

Section 15 - Qualifying material

33. This section sets out the circumstances in which material will qualify for the lower rate of tax. Firstly, the material needs to be listed in the Table in Schedule 1. Secondly, each applicable condition (if any) that is set out in the Table in Schedule 1 will need to be met. Thirdly, landfill site operators must hold a written description of the material, often referred to as a waste transfer note, if such a document is required by the Environmental Protection Act 1990 or, if it is not, other evidence which establishes that the material is in fact a qualifying material. Welsh Ministers may, by regulations, amend Schedule 1.

Section 16 - Qualifying mixtures of materials

34. This section sets out the tests that a mixture of materials must meet in order to qualify for the lower rate of LDT. Requirements 1-6 apply to all qualifying mixtures and requirement 7 provides for the possibility of there being additional requirements to be met when the mixture is made up of fines.
35. It should be noted that requirement 1 provides that the load must be made up of one or more qualifying materials and only a small amount of non-qualifying material which is incidental to the qualifying material. Subsection (2) sets out matters that must be taken into account in determining whether an amount of non-qualifying material is a small amount and whether it is incidental to the qualifying materials.

36. Mae gofyniad 3 yn nodi na ddylai'r deunydd anghymwys fod wedi ei gymysgu'n fwriadol â'r deunyddiau cymwys at ddibenion gwaredu na materion sy'n ymwneud â pharatoi i waredu: er enghraifft, ar gyfer eu cludo. Bydd y prawf hwn yn gwahaniaethu, er enghraifft, rhwng achos pan fo darnau o ddeunydd anghymwys ynghlwm wrth ddeunydd cymwys am nad oedd yn bosibl eu tynnu oddi yno'n llwyr, ac achos pan fo deunydd anghymwys wedi ei ychwanegu at y llwyth, ar wahân ac yn fwriadol. Ni fyddai'r achos olaf yn bodloni gofyniad 3.
37. Mae gofyniad 4 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau unrhyw ddeunyddiau na chaniateir eu cynnwys mewn cymysgedd cymwys o ddeunyddiau. Pe bai'r fath reoliadau yn cael eu gwneud, byddai'r gyfradd dreth safonol (fel y'i diffinnir yn adran 14) yn gymwys i unrhyw gymysgedd o ddeunyddiau sy'n cynnwys deunydd rhagnodedig, ni waeth pa un a oedd swm y deunydd rhagnodedig yn fychan ac yn atodol ai peidio.
38. Mae gofyniad 6 yn nodi na chaniateir i unrhyw drefniadau (mae hyn yn cynnwys unrhyw gamau neu weithrediadau) gael eu gwneud mewn cysylltiad â'r cymysgedd y mae osgoi atebolrwydd i'r dreth yn brif ddiben iddynt, neu'n un o'u prif ddibenion. Er enghraifft, gallai trefniadau o'r fath gynnwys paratoi cymysgedd mewn ffordd sy'n galluogi i'w gyfansoddiad gael ei guddio. Gall hyn gynnwys gwasgu neu guddio'n fwriadol ddeunydd cyfradd safonol o fewn llwyth o ddeunydd cymwys er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn ymddangos bod mwy na swm bychan ac atodol o ddeunydd o'r fath yn bresennol yn y llwyth.

Adran 17 - Cymysgedd cymwys o ddeunyddiau: gronynnau mân

39. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â gronynnau mân (fel y'u diffinnir yn adran 17(6)). Caiff y rheoliadau ragnodi gofynion y mae'n rhaid eu bodloni (yn ogystal â'r gofynion hynny a nodir ar gyfer cymysgeddau cymwys yn adran 16) er mwyn i gymysgedd o ronynnau mân fod yn gymwys ar gyfer y gyfradd is. Mae adran 17(2) yn nodi rhestr nad yw'n hollgynhwysol o'r materion y caiff y rheoliadau hynny eu cwmpasu, ac mae'n cynnwys y posibilrwydd y gellir ei gwneud yn ofynnol i brawf ar gymysgedd o ronynnau mân arwain at ganlyniad rhagnodedig os cynhelir prawf rhagnodedig arnynt (17(2)(e)). Os gosodir y fath ofyniad o dan adran 17(2)(e), mae adran 17(3) yn nodi rhestr nad yw'n hollgynhwysol o'r darpariaethau cysylltiedig y gellir eu gwneud, megis gofyniad bod gweithredwr safle tirlenwi yn cynnal y prawf rhagnodedig ar gymysgedd rhagnodedig o ronynnau mân ar adeg rhagnodedig. Effaith adran 17(5) yw y caniateir nodi gofynion mewn perthynas â chymysgedd o ronynnau mân, ac eithrio'r gofynion hynny sy'n ymwneud â phwerau neu ddyletswyddau ACC, mewn hysbysiad ACC, ar yr amod bod y rheoliadau yn caniatáu hynny.

Pwysau trethadwy deunydd

Adrannau 18 i 20 - Cyfrifo pwysau trethadwy deunydd; cyfrifo pwysau trethadwy deunydd gan y gweithredwr; a phennu pwysau deunydd gan y gweithredwr

40. Codir TGT ar warediad trethadwy drwy luosi pwysau trethadwy'r deunydd â'r gyfradd dreth berthnasol, fel a nodir yn adran 14. Mae'n bwysig, felly, cyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd sy'n cael ei waredu yn fanwl gywir.

36. Requirement 3 states that the non-qualifying material must not have been mixed with the qualifying materials deliberately for the purposes of disposal or matters preparatory to disposal: for example, for transportation. This test will, for example, distinguish between a case where there are fragments of non-qualifying material attached to qualifying material because the complete removal of it was not possible and a case where a non-qualifying material has been separately and deliberately added to the load. The latter would not satisfy requirement 3.
37. Requirement 4 allows for the Welsh Ministers to prescribe in regulations any materials which must not be included in a qualifying mixture of materials. If such regulations were made, the standard rate of tax (as defined in section 14) would apply to any mixture of materials containing prescribed material, regardless of whether the amount of prescribed material was small and incidental to the other material.
38. Requirement 6 states that no arrangements (this includes any actions or operations) should be made in respect of the mixture, that have, as the main purpose, or as one of the main purposes, the avoidance of tax liability. Such arrangements might include, for example, the blending of a mixture in a way that allows its composition to be disguised, such as deliberately crushing up or hiding standard rate material within a load of qualifying material so as to reduce the likelihood of it appearing to have more than a small and incidental amount of such material present in the load.

Section 17 – Qualifying mixtures of materials: fines

39. This section empowers the Welsh Ministers to make regulations in respect of fines (as defined at section 17(6)). The regulations may prescribe requirements that must be met (in addition to those set out for qualifying mixtures at section 16) in order for a mixture of fines to be eligible for the lower rate. Section 17(2) sets out a non-exhaustive list of matters those regulations may cover and includes the possibility of requiring that a mixture of fines gives a prescribed result if subjected to a prescribed test (17(2)(e)). If such a requirement is imposed under section 17(2)(e), section 17(3) sets out a non-exhaustive list of connected provision that can be made, such as a requirement that a landfill site operator carry out the prescribed test on prescribed mixtures of fines at a prescribed time. The effect of section 17(5) is that requirements in relation to mixtures of fines, other than those relating to WRA powers or duties, may be set out in a WRA notice, provided the regulations allow for this.

Taxable weight of material

Sections 18 to 20 – Calculation of taxable weight of material, Calculation of taxable weight of material by operator and Determination of weight of material by operator

40. LDT is charged on a taxable disposal by multiplying the taxable weight of the material by the tax rate applicable, as set out at section 14. Therefore an accurate calculation of the taxable weight of the material being disposed of is important.

41. Mae adran 18 yn darparu bod rhaid i bwysau trethadwy'r deunydd mewn gwarediad trethadwy (a wneir ar safle tirlenwi awdurdodedig) gael ei gyfrifo gan weithredwr y safle tirlenwi, ac y caiff ACC ei gyfrifo os yw'n meddwl ei bod yn briodol gwneud hynny. Mae'r adran hon hefyd yn pennu'r pwysau trethadwy sy'n gymwys at ddibenion adran 14(2) a (5) o'r Ddeddf.
42. Mae adran 19 yn nodi sut y mae'n rhaid i weithredwr safle tirlenwi gyfrifo pwysau trethadwy deunydd mewn gwarediad trethadwy. Rhaid i weithredwr y safle tirlenwi bennu pwysau'r deunydd mewn tunelli yn unol ag adran 20. Pan fo gan weithredwr safle tirlenwi gymeradwyaeth i gymhwysu disgownt mewn perthynas â dŵr sy'n bresennol mewn deunydd, caiff gweithredwr y safle tirlenwi gymhwysu'r disgownt (neu ddisgownt is) i'r pwysau a bennwyd, yn ddarostyngedig i amodau'r gymeradwyaeth (os oes rhai).
43. Mae adran 20 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr safle tirlenwi bennu pwysau'r deunydd mewn gwarediad trethadwy drwy ddefnyddio pont bwysu. At y diben hwn, rhaid i weithredwr safle tirlenwi sicrhau bod y deunydd yn cael ei bwysu ar bont bwysu cyn i'r gwarediad gael ei wneud, a sicrhau hefyd fod y bont bwysu yn bodloni'r gofynion a nodir mewn deddfwriaethau pwysau a mesurau perthnasol.
44. Fodd bynnag, gall fod amgylchiadau lle nad yw'n bosibl i weithredwr safle tirlenwi ddefnyddio pont bwysu. Er enghraifft, mae'n bosibl nad oes pont bwysu ar safle tirlenwi, neu fod pont bwysu wedi torri. Felly, mae adran 20(3) yn gwneud darpariaeth i weithredwr safle tirlenwi wneud cais i ACC am gymeradwyaeth i ddefnyddio dull arall i bennu pwysau deunydd mewn gwarediad trethadwy. Er enghraifft, gallai dull arall gynnwys cyfrifo yn seiliedig ar uchafswm pwysau a ganiateir ar gyfer cynhwysydd.
45. Mae adran 20 hefyd yn gwneud darpariaeth i ACC bennu'r modd y bydd cais am ddull arall yn cael ei wneud a'r wybodaeth y mae'n rhaid iddo ei chynnwys. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch pwerau ACC mewn perthynas â chymeradwyo dull arall. Er enghraifft, caiff ACC gymeradwyo mewn perthynas â phob gwarediad trethadwy neu mewn perthynas â gwarediadau trethadwy o ddisgrifiadau penodol. Caiff ACC gymeradwyo naill ai'n ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau. Yn ogystal â hyn, caiff ACC amrywio neu ddirymu cytundeb. Gall hyn ddigwydd os yw ACC yn ystyried nad yw'r dull arall yn dangos y pwysau'n fanwl gywir neu nad yw'n cael ei dilyn yn llwyr a bod risg i'r referniw dreth.
46. Mae cosb am fethu â phennu pwysau'r deunydd mewn gwarediad trethadwy yn unol ag adran 20. Nodir y gosb hon yn adran 61 o'r Ddeddf.

Adran 21 – Disgownt mewn cysylltiad â dŵr mewn deunydd

47. Mae adran 21(1) a (2) yn darparu y caiff gweithredwr safle tirlenwi wneud cais ysgrifenedig i ACC am gymeradwyaeth i roi disgownt mewn cysylltiad â dŵr sydd mewn deunydd wrth gyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd. Mae adran 21(4) yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i ACC gymeradwyo disgownt dŵr.

41. Section 18 provides that the taxable weight of the material in a taxable disposal (made at an authorised landfill site) must be calculated by the landfill site operator and may be calculated by WRA if it thinks it appropriate to do so. This section also specifies the taxable weight that applies for the purposes of section 14(2) and (5) of the Act.
42. Section 19 sets out how an operator must calculate the taxable weight of the material in a taxable disposal. The landfill site operator must determine the weight of the material in tonnes in accordance with section 20. Where a landfill site operator has approval to apply a discount in respect of water present in material, the landfill site operator may apply the discount (or a lesser discount) to the weight determined, subject to the conditions of the approval (if any).
43. Section 20 requires the landfill site operator to determine the weight of the material in a taxable disposal by using a weighbridge. For this purpose, the landfill site operator must ensure that the material is weighed on the weighbridge before the disposal is made, and that the weighbridge meets the requirements set out in applicable weights and measures legislation.
44. There may however be circumstances where it is not possible for a landfill site operator to use a weighbridge. For example, a landfill site may not have a weighbridge or a weighbridge may have broken down. Section 20(3) therefore makes provision for a landfill site operator to make an application to WRA for approval to use an alternative method to determine the weight of material in a taxable disposal. For example, an alternative method may include a calculation based on the maximum permitted weight of a container.
45. Section 20 also makes provision for WRA to specify the manner in which an application for an alternative method is to be made and the information it must contain. This section makes further provision about the powers of WRA in relation to an approval for an alternative method. For example, WRA may give approval in relation to all taxable disposals or to particular descriptions of taxable disposals. WRA may give approval unconditionally or subject to conditions. Further, WRA may vary or revoke an agreement; this may occur if WRA consider the alternative method is not giving an accurate indication of the weight or is not being fully observed and there is a risk to the tax revenue.
46. There is a penalty for failing to determine the weight of the material in a taxable disposal in accordance with section 20. This is set out in section 61 of the Act.

Section 21 – Discount in respect of water content of material

47. Section 21(1) and (2) provide that a landfill site operator may apply in writing to WRA for approval to apply a discount in respect of water present in material when calculating the taxable weight of the material. Section 21(4) sets out the conditions that must be met in order for WRA to give approval for a water discount.

48. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch pwerau ACC mewn perthynas â chymeradwyo rhoi disgownt dŵr. Er enghraifft, gall cymeradwyaeth fod yn ddarostyngedig i amodau neu gellir ei rhoi am gyfnod penodol.
49. Mae'r darpariaethau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr safle tirlenwi gadw cofnod disgownt dŵr ar gyfer pob gwarediad trethadwy pan roddir disgownt. Mae'r cofnod i'w drin fel cofnod y mae'n ofynnol ei gadw a'i storio'n ddiogel yn unol ag adran 38 o DCRhT, sy'n nodi'r cyfnod perthnasol ar gyfer cadw cofnodion.
50. Mae cosb am gymhwyso disgownt dŵr yn anghywir. Nodir y gosb hon yn adran 62 o'r Ddeddf.

Adrannau 22 a 23 - Cyfrifo pwysau trethadwy deunydd gan ACC gan gynnwys mewn achosion o beidio â chydymffurfio

51. Mae adran 22 yn nodi sut y bydd ACC yn cyfrifo pwysau trethadwy deunydd pan fo'n meddwl ei bod yn briodol gwneud hynny.
52. Mae adran 23 yn darparu, mewn achosion o beidio â chydymffurfio fel y nodir yn yr adran hon, y caiff ACC anwybyddu'r disgownt dŵr wrth gyfrifo pwysau trethadwy deunydd, neu leihau'r disgownt hwnnw.

Adran 24 - Adolygiadau ac apelau sy'n ymwneud â'r dull o bennu pwysau deunydd

53. Mae adran 24 yn diwygio adran 172 o DCRhT er mwyn i'r gweithdrefnau adolygu ac apelio yn Rhan 8 o'r Ddeddf honno fod yn gymwys i benderfyniadau o dan adran 20 o'r Ddeddf hon.

Adran 25 - Pŵer i addasu darpariaeth sy'n ymwneud a phwysau trethadwy deunydd

54. Mae adran 25 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ychwanegu at unrhyw ddarpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â phwysau trethadwy deunydd (gan gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â disgownt dŵr), diddymu'r darpariaethau hynny neu eu diwygio fel arall.

Pennod 3 - Rhyddhad rhag Treth

Adran 26 - Rhyddhadau: cyffredinol

55. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r bennod ar ryddhadau ac yn nodi'r rheolau cyffredinol a ganlyn: nid yw rhyddhadau yn gymwys ond mewn perthynas â gwarediadau a wneir ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig (felly nid ydynt yn gymwys mewn perthynas â gwarediadau heb eu hawdurdodi); pan fo rhyddhad yn gymwys, nid oes treth i'w chodi; ac ni fydd rhyddhad yn gymwys oni bai y caiff ei hawlio ar ffurflen dreth. Caiff ACC bennu ffurf y ffurflen dreth a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys arni (o dan adran 191 o DCRhT), a bydd yn ofynnol i weithredwr y safle tirlenwi gadw a storio'n ddiogel unrhyw gofnodion sy'n berthnasol i'r hawliad, yn unol ag adran 38 o DCRhT (6 mlynedd i ddyddiad dychwelyd y ffurflen dreth neu i ddyddiad cwblhau ymholiad).

48. This section makes further provision about the powers of WRA in relation to an approval to discount water. For example, approval may be subject to conditions or may be given for a fixed period.
49. The provisions also require a landfill site operator to keep a water discount record in relation to each taxable disposal to which a discount is applied. The record is to be treated as being a record required to be kept and preserved in accordance with section 38 of TCMA, which sets out the relevant time period for retaining records.
50. There is a penalty for applying water discount incorrectly. This is set out in section 62 of the Act.

Sections 22 and 23 – Calculation of taxable weight of material by WRA including in cases of non-compliance

51. Section 22 details how WRA is to calculate the taxable weight of material where it thinks it is appropriate to do so.
52. Section 23 provides that in cases of non-compliance as set out in this section, WRA may ignore or reduce the water discount when calculating the taxable weight of material.

Section 24 – Reviews and appeals relating to method for determining weight of material

53. Section 24 amends section 172 of TCMA so that the review and appeals procedures in Part 8 of that Act apply to decisions under section 20 of this Act.

Section 25 – Power to modify provision relating to taxable weight of material

54. Section 25 allows the Welsh Ministers by regulations to add to, repeal or otherwise amend any provision in the Act relating to the taxable weight of material (including provision relating to water discount).

Chapter 3 – Relief from Tax

Section 26 – Reliefs: general

55. This section introduces the chapter on reliefs and sets out the following general rules: reliefs apply only in relation to disposals at authorised landfill sites (so do not apply in relation to unauthorised disposals); where a relief applies, tax is not chargeable; and a relief will not apply unless it is claimed in a tax return. WRA may specify the form of the return and the information that must be contained in it (under section 191 of TCMA) and the landfill site operator will be required to keep and preserve any records relevant to the claim, in accordance with section 38 of TCMA (6 years from making the return or the completion of an enquiry).

Adran 27 – Deunydd a dynnir o wely afon, o wely'r mor neu o wely dyfroedd eraill

56. Mae'r rhyddhad hwn yn gymwys i warediad:
- deunydd a dynnir o wely dyfroedd penodol; a
 - deunydd sy'n bodoli'n naturiol a dynnir o wely'r môr fel rhan o'r broses o gael deunyddiau megis tywod a graean.
57. Caiff y rhyddhad fod yn gymwys i ddeunyddiau a dynnir at unrhyw ddiben, gan gynnwys tynnu deunyddiau er budd mordwyaeth neu er mwyn atal llifogydd.
58. Mae'r rhyddhad hefyd yn cwmpasu unrhyw ddeunydd cymwys a ychwanegir at y deunydd sydd wedi ei garthu sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau nad yw'r deunydd sydd wedi ei garthu ar ffurf hylif (gan ganiatáu iddo, felly, gael ei waredu ar safle tirlenwi). Rhagwelir y byddai gan y deunydd cymwys a ychwanegir nodweddion sychu neu y byddai'n rhwymo'r lleithder gormodol sydd yn y gwastraff.

Adran 28 – Deunydd sy'n deillio o fwyngloddio a chwarela

59. Mae'r rhyddhad hwn yn gymwys i warediadau deunydd sy'n bodoli'n naturiol a echdynwyd o'r ddaear o ganlyniad i fwyngloddio neu weithrediadau chwarela. Mae gwarediad deunydd o'r fath wedi ei rhyddhau rhag treth os nad yw'r deunydd wedi bod yn destun unrhyw broses ar wahân, neu os nad yw wedi ei addasu'n gemegol, rhwng ei echdynnu a'i waredu.

Adrannau 29 i 31 – Defnyddio deunydd mewn gwaith adfer safle cymeradwy; gwaith adfer safle: y weithdrefn wrth wneud cais am gymeradwyaeth; a gwaith adfer safle: amrywio cymeradwyaeth

60. Mae defnyddio deunyddiau mewn gweithgarwch adfer safle yn weithgarwch tirlenwi penodedig, felly mae i'w drin fel gwarediad trethadwy (gweler adran 8(3)(i)). Mae'r darpariaethau hyn yn darparu ar gyfer rhyddhau'r gwarediad rhag treth os yw'r deunydd wedi ei ffurfio o ddeunydd cymwys ac yn cael ei ddefnyddio i adfer safle tirlenwi awdurdodedig (neu ran ohono) at ddefnydd arall. Fodd bynnag, maent yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr safleoedd tirlenwi geisio cymeradwyaeth ar gyfer y gwaith adfer ymlaen llaw er mwyn gallu hawlio'r rhyddhad. Ni fydd defnyddio deunydd i adfer safle heb gymeradwyaeth gan ACC yn elwa ar y rhyddhad. Rhagwelir y bydd y darpariaethau hyn yn galluogi ACC i asesu'r deunydd a ddefnyddir i adfer safle yn drylwyr ac i sicrhau nad oes modd cam-fanteisio ar y rhyddhad.
61. Mae adran 29 yn darparu y caiff ACC gymeradwyo cyflawni gwaith adfer ar safle tirlenwi awdurdodedig. Fodd bynnag, cyn gwneud hynny, bydd angen i ACC fod wedi ei fodloni bod adfer y safle yn ofynnol o dan drwydded amgylcheddol neu ganiatâd cynllunio sy'n ymwneud â'r safle. Dim ond y swm angenrheidiol o ddeunydd i gydymffurfio â'r drwydded neu'r caniatâd a fydd yn elwa ar y rhyddhad.

Section 27 – Material removed from bed of river, sea or other water

56. This relief applies to the disposal of:
- a. material removed from the bed of certain waterways; and
 - b. naturally occurring material removed from the sea bed as part of the process of obtaining materials such as sand and gravel.
57. The relief may apply to material removed for any purpose, including removal in the interests of navigation or for flood prevention.
58. The relief also covers such qualifying material added to the dredged material as is necessary for the purposes of securing that the dredged material is not in liquid form (and so to allow its disposal to landfill). It is anticipated that the qualifying material which is added would have dehydrating properties or bind the excess moisture content within the waste.

Section 28 – Material resulting from mining and quarrying

59. This relief applies to disposals of naturally occurring material extracted from the earth as a result of mining or quarrying operations. The disposal of such material is relieved if the material has not been subject to any separate process, or has not been chemically altered, between its extraction and disposal.

Sections 29 to 31 – Using material in approved site restoration work, Site restoration work: procedure on application for approval and Site restoration work: variation of approval

60. The use of material in site restoration is a specified landfill site activity, and so is to be treated as a taxable disposal (see section 8(3)(i)). These provisions provide for the disposal to be relieved from tax if the material consists of qualifying material and is used to restore an authorised landfill site (or part of it) to another use. However, they require landfill site operators to seek approval for the restoration work beforehand in order to be able to claim the relief. The use of material for site restoration without WRA approval will not benefit from the relief. It is anticipated that these provisions will enable WRA to fully assess material used for site restoration and to ensure that the relief is not open to abuse.
61. Section 29 provides that WRA may approve the carrying out of restoration work at an authorised landfill site.; However, before doing so, WRA will need to be satisfied that the site restoration is required by an environmental permit or planning permission relating to the site. Only the amount of material required to comply with the permit or permission will benefit from the relief.

62. Er bod rhaid i weithredwr safle tirlenwi wneud cais i ACC am gymeradwyaeth cyn i'r gwaith adfer ddechrau, nid oes angen i'r gweithredwr aros am gymeradwyaeth gan ACC cyn dechrau adfer y safle. Er enghraifft, gallai gweithredwr safle tirlenwi benderfynu bwrw ymlaen heb gymeradwyaeth er mwyn manteisio ar dywydd braf neu'r ffaith fod deunydd addas ar gael. Fodd bynnag, byddai gweithredwr y safle tirlenwi yn ysgwyddo'r risg ei hun wrth wneud hynny, oherwydd nid oes sicrwydd y byddai ACC yn cymeradwyo'r cais am gymeradwyaeth, er mwyn iddo allu hawlio rhyddhad adfer safle.
63. Mae adran 30 yn darparu ar gyfer adegau pan fo rhagor o wybodaeth yn ofynnol gan ACC er mwyn penderfynu a ddylid cymeradwyo cais i gyflawni gwaith adfer safle ai peidio, ac yn nodi'r paramedrau o ran sut y bydd hynny'n gweithio yn ymarferol. Caiff ACC a gweithredwr y safle tirlenwi gytuno i ymestyn cyfnod o amser a bennir gan yr adran hon.
64. Mae adran 31 yn cydnabod y gall gofynion y gwaith adfer safle a nodir yn y drwydded amgylcheddol neu'r caniatâd cynllunio newid, ac mae'n caniatáu i ACC amrywio'r gymeradwyaeth a roddir i adfer y safle. Gall amrywiad gael ei wneud o ganlyniad i gais gan weithredwr safle tirlenwi, neu gall ACC ei wneud. Os yw ACC yn amrywio'r gymeradwyaeth i adfer safle tirlenwi ohono'i hun, rhaid iddo ddyroddi hysbysiad sy'n nodi manylion yr amrywiad i weithredwr y safle tirlenwi. Nid yw amrywio cymeradwyaeth i adfer safle yn effeithio ar allu gweithredwr y safle tirlenwi i hawlio rhyddhad ar gyfer y gwaith adfer a gyflawnwyd yn unol â'r gymeradwyaeth cyn iddi gael ei hamrywio.

Adran 32 - Ail-lenwi mwyngloddiau brig a chwareli

65. Mae'r adran hon yn darparu rhyddhad ar gyfer gwaredu deunydd cymwys ar safle tirlenwi (neu ran ohono):
 - a. pan fu'r safle tirlenwi (neu'r rhan ohono lle gwneir y gwarediad) yn fwynglawdd brig neu'n chwarel yn y gorffennol;
 - b. pan fo'n un o ofynion y caniatâd cynllunio bod rhaid ail-lenwi'r safle (neu'r rhan ohono dan sylw) yn llwyr neu'n rhannol ar ôl y gweithrediadau cloddio brig neu chwarela; ac
 - c. os na wnaed unrhyw warediadau trethadwy eraill ar y safle (neu ran ohono), ac eithrio gwarediadau sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad o dan adran 28 neu 32.

Adran 33 - Pŵer i addasu rhyddhadau

66. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, greu, addasu neu ddileu rhyddhad; a darparu bod rhyddhad yn ddarostyngedig i amodau.

62. Whilst the landfill site operator must apply to WRA for approval before the restoration work begins, the operator need not wait for WRA's approval before beginning site restoration. A landfill site operator might decide, for example, to proceed without approval in order to take advantage of good weather conditions or the availability of suitable material. However, the landfill site operator would be doing so at the operator's own risk, as there would be no guarantee that WRA would approve the application for approval, so as to enable site restoration relief to be claimed.
63. Section 30 provides for occasions when WRA requires further information in order to make a decision on whether to approve an application to carry out site restoration and sets out the parameters of how this will work in practice. The WRA and landfill site operator may agree to extend a period of time specified by this section.
64. Section 31 recognises that the requirements of the site restoration in the environmental permit or planning permission may change and allows WRA to vary the site restoration approval. A variation may be made as a result of an application by a landfill site operator or may be initiated by WRA. If WRA varies the site restoration approval on its own initiative, it must issue a notice setting out the details of that variation to the landfill site operator. A variation to the site restoration approval does not affect the landfill site operator's ability to claim relief for restoration work that was carried out in accordance with the approval before it was varied.

Section 32 - Refilling open-cast mines and quarries

65. This section provides relief for a disposal of qualifying material at a landfill site (or part of it) when:
- a. the landfill site (or the part of it at which the disposal is made) was formerly an open cast mine or quarry;
 - b. it is a requirement of the planning permission that the site (or the part in question) must be wholly or partially refilled following the open-cast mining or quarrying operations; and
 - c. no other taxable disposals have been made at the site (or part of it), other than disposals qualifying for a relief under section 28 or 32.

Section 33 - Power to modify reliefs

66. This section allows the Welsh Ministers, by regulations, to create, modify or remove a relief; and to provide for a relief to be subject to conditions.

Pennod 4 - Casglu a Rheoli'r Dreth

Adrannau 34 i 38 - Cofrestru

67. Er mwyn galluogi ACC i gasglu a rheoli TGT yn effeithiol, mae'n bwysig ei fod yn gwybod pwy yw'r trethdalwyr. Mae adran 34 yn gosod dyletswydd ar ACC i gadw cofrestr o'r personau hynny sy'n gweithredu safleoedd tirlenwi awdurdodedig lle gwneir gwarediadau trethadwy. Ystyrir bod personau o'r fath yn cyflawni "gweithrediadau trethadwy" at ddibenion y Ddeddf hon. Rhaid i gofnod person ar y gofrestr gynnwys yr wybodaeth a bennir yn Atodlen 2. Caiff ACC gyhoeddi unrhyw wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y gofrestr er mwyn i fusnesau allu sicrhau eu bod yn anfon eu gwastraff i safleoedd tirlenwi awdurdodedig, ymysg pethau eraill.
68. Mae adran 35 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy fod wedi ei gofrestru gydag ACC. Rhaid i berson sy'n bwriadu cyflawni gweithrediadau trethadwy wneud cais i ACC i gael ei gofrestru ac mae'n rhaid iddo wneud hynny o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn y diwrnod y mae'n dechrau cyflawni'r gweithrediadau trethadwy.
69. Mae'n bwysig bod y gofrestr yn parhau'n gywir a'i bod yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am weithredwyr safle tirlenwi. Felly, mae adran 36 yn ei gwneud yn ofynnol i berson cofrestredig, neu berson sydd wedi gwneud cais i gofrestru, roi gwybod i ACC am unrhyw newidiadau neu anghywirdebau yn yr wybodaeth y maent wedi ei darparu, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n cydymffurfio â gofynion yr adran honno.
70. Mae adran 37 yn ei gwneud yn ofynnol i berson cofrestredig sy'n rhoi'r gorau i gyflawni gweithrediadau trethadwy wneud cais i ACC i ddileu ei gofrestriad, yn ddim hwyrach na 30 o ddiwrnodau wedi i'r gweithrediadau trethadwy ddod i ben.
71. Mae cosbau yn gysylltiedig â'r gofynion cofrestru yn adrannau 35 a 36. Gellir gweld y rhain yn adrannau 64 i 67 o'r Ddeddf.
72. Mae adran 38 yn diwygio adran 172(2) o DCRhT er mwyn i'r gweithdrefnau adolygu ac apelio yn Rhan 8 o'r Ddeddf honno fod yn gymwys i benderfyniadau sy'n ymwneud â chofrestru person gydag ACC at ddibenion TGT.

Adrannau 39 i 41 - Cyfrifo treth

73. Dylid darllen yr adrannau hyn o'r Ddeddf a'r nodiadau hyn ar y cyd â Phennod 3 o Ran 3 o DCRhT a'r nodiadau esboniadol perthnasol (paragraffau 46 a 47), sy'n mynd gyda DCRhT.
74. Mae adran 39 yn gosod dyletswydd ar weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig sy'n cyflawni gwarediadau trethadwy i ddychwelyd ffurflen dreth mewn cysylltiad â phob cyfnod cyfrifyddu. Rhaid i'r ffurflen dreth gynnwys asesiad o swm y dreth sydd i'w godi ar y gweithredwr a datgan bod yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf gwybodaeth y gweithredwr.

Chapter 4 – Tax Collection and Management

Sections 34 to 38 – Registration

67. To enable WRA to effectively collect and manage LDT, it is important that it is aware of who the taxpayers are. Section 34 places a duty on WRA to keep a register of those persons who operate authorised landfill sites at which taxable disposals are made. Such persons are considered to be carrying out “taxable operations” for the purposes of this Act. A person’s entry in the register must contain the information specified in Schedule 2. WRA may wish to publish any information that is contained in the register so that, among other things, businesses can ensure they are sending their waste to authorised landfill sites.
68. Section 35 requires a person who carries out taxable operations to be registered with WRA. A person who intends to carry out taxable operations must apply to WRA to be registered and the application must be made at least 14 days before the taxable operations begin.
69. It is important for the register to remain accurate and reflect the most up-to-date information available regarding landfill site operators. Therefore, section 36 requires a registered person, or a person who has applied for registration, to give notice to WRA of any changes or inaccuracies in the information they have provided and to do so in a way that complies with the requirements of that section.
70. Section 37 requires a registered person who ceases to carry out taxable operations to apply to WRA for the cancellation of their registration no later than 30 days after taxable operations end.
71. There are penalties associated with the registration requirements in sections 35 and 36. These are set out in sections 64 to 67 of the Act.
72. Section 38 amends section 172(2) of TCMA so that the review and appeals procedures in Part 8 of that Act apply to decisions relating to the registration of a person with WRA for the purposes of LDT.

Sections 39 to 41 – Accounting for tax

73. These sections of the Act and these notes should be read in conjunction with Part 3, Chapter 3 of TCMA and the relevant explanatory notes (paragraphs 46 and 47), which accompany TCMA.
74. Section 39 places a duty on the operator of an authorised landfill site at which taxable disposals are made to make a tax return in respect of each accounting period. The return must contain an assessment of the amount of tax chargeable on the operator and a declaration that the information they have provided is correct and complete to the best of the operator’s knowledge.

75. Rhaid dychwelyd ffurflenni treth, ynghyd ag unrhyw daliad treth, yn ddim hwyrach na diwrnod gwaith olaf y mis sy'n dilyn y mis y daw'r cyfnod cyfrifyddu i ben ynddo, oni bai bod y dyddiad hwnnw yn cael ei amrywio o dan adran 40. Er enghraifft, os daw cyfnod cyfrifyddu i ben ar 30 Mehefin, rhaid dychwelyd ffurflen dreth a thalu'r dreth erbyn diwrnod gwaith olaf mis Gorffennaf.
76. O ran gweithredwyr safleoedd tirlenwi cofrestredig, mae'r cyfnod cyfrifyddu cyntaf yn dechrau â'r diwrnod y maent yn dechrau cyflawni gweithrediadau trethadwy (neu, os yw'n hwyrach, y diwrnod y daw'n weithredwr cofrestredig) ac yn dod i ben â'r diwrnod y rhoddir gwybod iddynt amdano gan ACC. O hynny ymlaen, eu cyfnodau cyfrifyddu fydd pob cyfnod dilynol o 3 mis (oni bai bod y cyfnodau hynny yn cael eu hamrywio o dan adran 40).
77. O ran gweithredwyr safle tirlenwi nad ydynt yn gofrestrdig, mae'r cyfnod cyfrifyddu cyntaf yn dechrau â'r diwrnod y maent yn dechrau cyflawni gweithrediadau trethadwy ac yn parhau hyd at ddiwedd y chwarter calendr y maent yn dechrau gwneud hynny (neu, os yw'n gynharach, y diwrnod cyn y diwrnod y daw'n weithredwr cofrestredig). O hynny ymlaen, pob chwarter calendr fydd y cyfnodau cyfrifyddu (sef cyfnodau o 3 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi neu 31 Rhagfyr).
78. Mae adran 40 yn rhoi'r pŵer i ACC amrywio hyd cyfnod cyfrifyddu a dyddiad ffeilio ffurflen dreth. Mae unrhyw amrywiad o'r fath i'w wneud drwy ddyroddi hysbysiad i weithredwr y safle tirlenwi.
79. Mae adran 41 yn darparu bod y dreth sydd i'w chodi ar warediad trethadwy a wneir ar safle tirlenwi awdurdodedig i'w chodi mewn cysylltiad â'r cyfnod cyfrifyddu y gwnaed y gwarediad ynddo. Fodd bynnag, ceir un eithriad i'r rheol hon: os yw gweithredwr safle tirlenwi yn dyroddi anfoneb dirlenwi mewn cysylltiad â gwarediad o fewn 14 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir y gwarediad, yna codir y dreth mewn cysylltiad â'r cyfnod cyfrifyddu y dyroddir yr anfoneb ynddo. Felly, er enghraifft, pan fo cyfnodau cyfrifyddu gweithredwr safle tirlenwi yn chwarteri calendr ac y gwneir gwarediad trethadwy ar 28 Mehefin, gan ddyroddi anfoneb dirlenwi ar ei gyfer ar 1 Gorffennaf, y cyfnod cyfrifyddu ar gyfer y dreth ar y gwarediad hwnnw fydd y chwarter calendr sy'n dod i ben ar 30 Medi yn hytrach na'r chwarter calendr sy'n dod i ben ar 30 Mehefin. Mae Atodlen 3 yn nodi'r wybodaeth y mae angen ei chynnwys ar anfoneb dirlenwi. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau i ddiwygio Atodlen 3.

Talu, adennill ac ad-dalu treth

Adran 42 - Talu treth

80. Mae is-adran (1) yn nodi bod rhaid i'r swm o dreth yr asesir ei fod i'w godi gael ei dalu erbyn dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth. Mae is-adran (2) yn nodi'r sefyllfa pan fo ffurflen dreth yn cael ei diwygio o dan adran 41 o DCRhT gan arwain at yr angen i dalu swm ychwanegol o dreth. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid talu'r dreth yn ddim hwyrach na'r dyddiad ffeilio, os caiff y diwygiad ei wneud cyn y dyddiad ffeilio, neu os gwneir y diwygiad yn ddiweddarach, rhaid talu'r dreth ar yr un pryd ag y gwneir y diwygiad.

75. Tax returns must be submitted along with any payment of tax no later than the last working day of the month that follows the month in which the accounting period ends, unless this date is varied under section 40. For example, if an accounting period ends on the 30 June, a tax return must be submitted and payment of tax made by the last working day in July.
76. For registered landfill site operators, the first accounting period begins on the day on which they begin to carry out taxable operations (or, if later, the day on which they become registered) and ends on the day notified to them by WRA. From then on, their accounting periods will be each subsequent period of 3 months (unless those periods are varied under section 40).
77. For landfill site operators that have not registered, the first accounting period begins on the day on which they begin to carry out taxable operations and runs until the end of the calendar quarter in which they begin to do so (or, if sooner, the day before the day on which they become registered). From then on, the accounting periods will be every calendar quarter (a period of 3 months ending with 31 March, 30 June, 30 September or 31 December).
78. Section 40 provides WRA with the power to vary the duration of an accounting period and the filing date for a tax return. Any such variation is to be made by issuing a notice to the landfill site operator.
79. Section 41 provides that the tax chargeable on a taxable disposal made at an authorised landfill site is chargeable in respect of the accounting period in which the disposal is made. There is one exception to this rule, however: if a landfill site operator issues a landfill invoice in respect of a disposal within 14 days beginning with the day the disposal is made, the tax then becomes chargeable in respect of the accounting period in which the invoice is issued. So, for example, where a landfill site operator's accounting periods are calendar quarters and a taxable disposal is made on 28 June for which a landfill invoice is issued on 1 July, the accounting period for the tax on that disposal will be the calendar quarter ending 30 September, rather than the calendar quarter ending 30 June. Schedule 3 sets out the information that needs to be contained in a landfill invoice. The Welsh Ministers have the power to make regulations to amend Schedule 3.

Payment, recovery and repayment of tax

Section 42 - Payment of tax

80. Subsection (1) states that the amount of tax assessed as being chargeable must be paid by the filing date for the tax return. Subsection (2) sets out the position where a tax return is amended under section 41 of TCMA and results in an additional amount of tax needing to be paid. In these circumstances, the tax must be paid no later than that filing date, if the amendment is made before the filing date, or, if the amendment is made later, the tax must be paid at the same time as the amendment is made.

Adran 43 – Dyletswydd i gadw crynodeb treth gwarediadau tirlenwi

81. Mae adran 43 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n cyflawni gwarediadau trethadwy gadw crynodeb TGT mewn cysylltiad â phob cyfnod cyfrifyddu. Rhaid i'r cofnod hwn gofnodi swm y dreth sydd i'w godi ar y person a'r dreth a dalwyd gan y person hwnnw mewn cysylltiad â phob cyfnod cyfrifyddu. Mae gan ACC y pŵer i bennu ar ba ffurf y mae'n rhaid cadw'r crynodeb TGT, a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ynddo. Mae'r crynodeb hwn i'n drin fel cofnod y mae'n ofynnol ei gadw a'i storio'n ddiogel o dan adran 38 o DCRhT, sy'n ei gwneud yn ofynnol cadw cofnodion am 6 mlynedd ar ôl dychwelyd ffurflen dreth neu roi hysbysiad diwygio, oni bai bod ACC yn pennu cyfnod byrrach.

Adran 44 – Gohirio adennill

82. Mae adrannau 181A-181I o DCRhT yn nodi'r amgylchiadau lle caiff person wneud cais i ACC i ohirio adennill treth ddatganoledig tra bo'n aros am adolygiad neu apêl ynghylch penderfyniad ACC, y broses ar gyfer gwneud cais o'r fath ac effaith caniatáu cais i ohirio.
83. Mae adran 44 yn diwygio adran 181B o DCRhT at ddibenion ceisiadau gohirio sy'n ymwneud â TGT. Effaith y diwygiadau yw ei gwneud yn ofynnol i ACC, wrth ystyried cais i ohirio TGT, yn ogystal ag ystyried pa un a oes gan berson sail resymol dros ddatgan bod swm y dreth yn ormodol (fel y byddai'n digwydd gyda threthi datganoledig eraill), ystyried hefyd a fyddai adennill y swm yn achosi caledi ariannol. Felly, rhaid i gais person i ohirio nodi'r rhesymau pam fod y person hwnnw yn meddwl y byddai adennill y dreth yn achosi caledi ariannol iddo, yn ogystal â nodi'r swm y mae'n gofyn am ei ohirio, a pham ei fod yn meddwl bod swm y dreth y mae ACC yn ceisio ei adennill yn ormodol.
84. Gellir caniatáu cais i ohirio yn llawn pan fydd y profion yn adran 181B(4) o DCRhT, fel y'i diwygiwyd gan adran 44(3), wedi eu bodloni, neu gellir caniatáu'r cais hwnnw mewn perthynas â rhan o swm y mae anghytundeb yn ei gylch yn unol ag adran 181B(5) fel y'i diwygiwyd gan adran 44(4)(b).

Adran 45 – Dim gofyniad i ollwng neu ad-dalu treth oni thelir yr holl dreth

85. Mae adran 45 yn diwygio adran 67 o DCRhT. Mae'r diwygiad hwn yn sicrhau nad oes angen i ACC roi effaith i gais am ryddhad o dan adran 63 o DCRhT pan fo swm o dreth gwarediadau tirlenwi yn mae'n ofynnol i'r ceisydd ei dalu heb ei dalu.

Section 43 – Duty to maintain landfill disposals tax summary

81. Section 43 requires a person who carries out taxable operations to keep a LDT summary in respect of each accounting period. This record must record the amount of tax chargeable on the person and the tax paid by that person in respect of each accounting period. WRA has the power to specify the form in which the LDT summary must be kept and the information that must be contained in it. This record is to be treated as a record required to be kept and preserved under section 38 of TCMA, which requires records to be kept for six years from the making of a return or notice of amendment, unless WRA specifies a shorter period.

Section 44 – Postponement of recovery

82. Sections 181A-181I of TCMA set out circumstances in which a person may request WRA postpone the recovery of devolved tax pending a review or appeal of a WRA decision, the process for making such a request and the effect of a postponement request being granted. Act.
83. Section 44 amends section 181B of TCMA for the purposes of postponement requests relating to LDT. The effect of the amendments are to require WRA, when considering an LDT postponement request, to consider not only whether a person has reasonable grounds for stating that the amount of tax is excessive (as would be the case for other devolved taxes), but also whether recovery of the amount would cause financial hardship. A person's request for postponement must therefore address the reasons why that person thinks that recovery would cause them financial hardship, in addition to setting out the amount that they are seeking to postpone and why they think the amount of tax that WRA is seeking to recover is excessive.
84. A postponement request may be granted in full when the tests at section 181B(4) of TCMA, as amended by section 44(3), are met, or may be granted in relation to part of a disputed amount in accordance with section 181B(5) as amended by section 44(4)(b).

Section 45 - No requirement to discharge or repay tax unless all tax paid

85. Section 45 amends section 67 of TCMA. This amendment ensures that WRA does not need to give effect to a claim for relief under section 63 of TCMA where an amount of landfill disposals tax that the claimant is required to pay has not been paid.

Rhan 4 - Gwarediadau Trethadwy A Wneir Mewn Lleoedd Heblaw Safleoedd Tirlenwi Awdurdodedig

Pennod 1 - Y Dreth sydd i'w Chodi ar Warediadau Trethadwy

Adran 46 - Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi ar warediad trethadwy

86. Mae'r adran hon yn darparu y bydd swm y dreth sydd i'w godi ar warediad a wneir yn rhywle heblaw safle tirlenwi awdurdodedig (gweler adran 3 am y diffiniad o warediad trethadwy) yn cael ei gyfrifo drwy luosi pwysau trethadwy'r deunydd gyda'r gyfradd ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi. Bydd ACC yn pennu'r pwysau trethadwy gan ddefnyddio unrhyw ddull y mae'n ei ystyried yn briodol. Caiff y gyfradd ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ei rhagnodi gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Dim ond yn dilyn dyroddi hysbysiad codi treth o dan Bennod 2 o'r Rhan hon y bydd yn ofynnol i berson dalu'r dreth.

Pennod 2 - Y Weithdrefn ar gyfer Codi'r Dreth

Adran 47 - Yr amod ar gyfer codi treth

87. Mae is-adran (1) yn nodi o dan ba amgylchiadau y bydd person yn bodloni'r amod ar gyfer codi treth, sy'n berthnasol i ddyroddi hysbysiad rhagarweiniol a hysbysiad codi treth. Mae person yn bodloni'r amod ar gyfer codi treth os gwnaeth y gwarediad neu os achosodd neu y caniatodd y gwarediad trethadwy, a hynny o fwriad.

88. Mae is-adran (2) yn datblygu ar is-adran (1)(b) ac yn darparu, oni bai bod person yn gallu bodloni ACC neu (ar apêl) y tribiwnlys fel arall, y caiff ei drin fel pe bai wedi achosi neu ganiatáu i'r gwarediad gael ei wneud, a hynny o fwriad, os oedd y person, pan wnaed y gwarediad:

- a. yn rheoli cerbyd modur neu drelar y gwnaed y gwarediad ohono, neu mewn sefyllfa i'w reoli; ac
- b. yn berchennog, yn lesddeiliad neu'n feddiannydd y tir lle gwnaed y gwarediad.

89. Wrth ystyried a yw person o'r fath wedi gwrthdroi'r rhagdybiaeth ei fod yn bodloni'r amod ar gyfer codi treth, rhagwelir y gall ACC neu'r tribiwnlys ystyried:

- a wnaeth y person ymdrech resymol i rwystro dympio'r gwastraff ar ei dir (e.e. ffensys cadarn);
- a wnaeth y person ymdrech resymol i symud y gwastraff (e.e. cysylltu â chlundwr gwastraff cofrestredig i'w symud);
- a fu'r person yn cynorthwyo gydag unrhyw gamau amgylcheddol (posibl) yn erbyn y troseddwy'r (e.e. cysylltu â'r heddlu, yr awdurdod lleol, neu Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r gwastraff, a/neu'n helpu gyda'u hymholiadau);
- nad oedd y person yn gwybod am y gwastraff, ac na fyddai'n rhesymol iddo wybod amdano (e.e. o ystyried ymhle y cafodd y gwastraff ei waredu, maint yr ystâd ac ati);
- os oedd y person yn wael, neu fel arall yn analluog.

Part 4 – Taxable Disposals Made at Places Other than Authorised Landfill Sites

Chapter 1 - Tax Chargeable on Taxable Disposals

Section 46 – Calculation of tax chargeable on taxable disposal

86. This section provides that the amount of tax chargeable on a disposal made at a place other than an authorised landfill site (see section 3 for the definition of a taxable disposal) will be calculated by multiplying the taxable weight of the material by the unauthorised disposals rate. The taxable weight is to be determined by WRA using any method it considers appropriate. The unauthorised disposals rate is to be prescribed by the Welsh Ministers in regulations. The tax only becomes payable following the issue of a charging notice under Chapter 2 of this Part.

Chapter 2 – Procedure for Charging Tax

Section 47 – The charging condition

87. Subsection (1) sets out the circumstances in which a person will meet the charging condition, which is relevant to the issuing of a preliminary and charging notice. A person meets the charging condition where they made the disposal or knowingly caused or knowingly permitted the taxable disposal to be made.

88. Subsection (2) builds on subsection (1)(b) and provides that unless a person can satisfy WRA or (on appeal) the tribunal otherwise, they will be treated as having knowingly caused or permitted the disposal to have been made if, at the time of the disposal, that person:

- a. controlled, or was in a position to control, a motor vehicle or trailer from which the disposal was made; or
- b. was the owner, lessee or occupier of the land where the disposal was made

89. In considering whether a person has overturned the presumption that they meet the charging condition, it is anticipated that WRA or the tribunal may take account of whether the person:

- took reasonable efforts to prevent the waste from being dumped on their land (e.g. sturdy fencing);
- took reasonable efforts to have the waste removed (e.g. contacted a registered waste carrier regarding removal);
- actively assisted in any (potential) environmental action against the offenders (e.g. contacted the police, local authority or NRW about the waste and/or helped them in their investigations);
- had no knowledge of the waste, and couldn't reasonably have had knowledge (e.g. given where the waste was deposited, the size of estate etc.);
- was ill or otherwise incapacitated.

90. Mae is-adran (3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch yr amgylchiadau pan fo person i'w drin (neu nad yw i'w drin) fel pe bai'n bodloni'r amod ar gyfer codi'r dreth, a materion sydd i'w hystyried wrth bennu a yw person yn bodloni'r amod hwnnw ai peidio.

Adran 48 – Pŵer i ddyroddi hysbysiad rhagarweiniol

91. Caiff ACC ddyroddi hysbysiad rhagarweiniol i berson os yw'n ymddangos i ACC bod gwarediad trethadwy wedi ei wneud y tu allan i safle tirlenwi awdurdodedig a bod y person yn bodloni'r amod ar gyfer codi treth ar y gwarediad hwnnw (hynny yw, bod y person wedi achosi neu ganiatáu gwneud y gwarediad, a hynny o fwriad). Caiff yr hysbysiad rhagarweiniol ymwneud â mwy nag un gwarediad trethadwy. Rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth a restrir yn is-adran (2) a rhoi gwybod i'r person am y materion a restrir yn is-adran (3). Ni chaniateir dyroddi hysbysiad rhagarweiniol fwy na 4 blynedd ar ôl i ACC ddod i wybod am y gwarediad trethadwy, a dim mwy nag 20 mlynedd ar ôl yr adeg y mae ACC yn credu i'r gwarediad trethadwy gael ei wneud, beth bynnag.

Adrannau 49 a 50 – Pŵer i ddyroddi hysbysiad codi treth ar ôl dyroddi hysbysiad rhagarweiniol a heb ddyroddi hysbysiad rhagarweiniol

92. Ar ôl i gyfnod o 45 o ddiwrnodau o leiaf fynd heibio ers dyroddi hysbysiad rhagarweiniol mewn perthynas â gwarediad, ac ar ôl ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig gan y sawl a gafodd yr hysbysiad rhagarweiniol, rhaid i ACC naill ai ddyroddi:

- a. hysbysiad codi treth i'r person mewn perthynas â'r gwarediad; neu
- b. hysbysiad i'r person sy'n datgan nad yw'n bwriadu dyroddi hysbysiad codi treth mewn perthynas â'r gwarediad.

93. Dim ond os yw'n fodlon bod gwarediad trethadwy wedi ei wneud y tu allan i safle tirlenwi awdurdodedig y caiff ACC ddyroddi hysbysiad codi treth. Rhaid iddo hefyd fod yn fodlon bod y person yn bodloni'r amod ar gyfer codi treth mewn perthynas â'r gwarediad. Rhaid i hysbysiad codi treth gynnwys y materion a restrir yn 49(5).

94. Caiff ACC ddyroddi hysbysiad codi treth heb iddo fod wedi dyroddi hysbysiad rhagarweiniol os yw'n meddwl, yn ogystal â bod wedi ei fodloni ynghylch y materion uchod, ei bod yn debygol y caiff treth ei cholli os yw ACC yn dyroddi hysbysiad rhagarweiniol (oherwydd, er enghraifft, y posibilrwydd y gallai'r person fynd i ddwylo'r gweinyddwyr). Yn yr amgylchiadau hynny, rhaid i'r hysbysiad hefyd gynnwys rhesymau ACC dros ddyroddi hysbysiad codi treth heb iddo fod wedi dyroddi hysbysiad rhagarweiniol.

Adran 51 – Talu treth

95. Mae'r adran hon yn gosod rhwymedigaeth ar y sawl sy'n cael hysbysiad codi treth i dalu'r dreth y mae'r hysbysiad hwnnw'n ei godi o fewn 30 o ddiwrnodau. Pan gaiff hysbysiadau codi treth eu dyroddi i fwy nag un person mewn cysylltiad â'r un gwarediad trethadwy, mae'r holl bersonau hynny'n atebol ar y cyd ac yn unigol (hynny yw, bydd ACC yn gallu adennill treth gan bob un ohonynt neu gan unrhyw un neu ragor ohonynt).

90. Subsection (3) confers a power on the Welsh Ministers, by regulations, to make further or different provision about the circumstances in which a person is (or is not) to be treated as meeting the charging condition, and matters that are to be taken into account in determining whether a person does (or does not) meet that condition.

Section 48 – Power to issue preliminary notice

91. WRA may issue a preliminary notice to a person where it appears to WRA that a taxable disposal has been made outside an authorised landfill site and that the person meets the charging condition in respect of that disposal (i.e. that the person knowingly caused or permitted the disposal to be made). The preliminary notice may relate to more than one taxable disposal. It must include the information listed in subsection (2) and inform the person of the matters listed in subsection (3). A preliminary notice may not be issued more than 4 years after WRA becomes aware of the taxable disposal and, in any case, not more than 20 years after WRA thinks that the taxable disposal was made.

Sections 49 and 50 – Power to issue charging notice after issuing preliminary notice and without issuing preliminary notice

92. After a period of at least 45 days has passed from issuing a preliminary notice in relation to a disposal, and after considering any written representations made by the recipient of the preliminary notice, WRA must issue either:
- a. a charging notice to the person in relation to the disposal; or
 - b. a notice to the person stating that it does not intend to issue a charging notice in relation to the disposal.
93. WRA may only issue a charging notice where it is satisfied that a taxable disposal has been made outside an authorised landfill site and that that the person meets the charging condition in relation to the disposal. A charging notice must include the matters listed in 49(5).
94. WRA may issue a charging notice without having issued a preliminary notice where, in addition to being satisfied about the matters referred to above, it thinks that there is likely to be a loss of tax if WRA issues a preliminary notice (because, for example, the person may enter into administration). In these circumstances, the notice must also include WRA's reasons for issuing a charging notice without having issued a preliminary notice.

Section 51 – Payment of tax

95. This section imposes an obligation on the recipient of a charging notice to pay the tax charged by that notice within a period of 30 days. Where charging notices are issued to more than one person in respect of the same taxable disposal, all of those persons are jointly and severally liable (i.e. WRA will be able to recover tax from all or any of them).

Adran 52 – Pŵer i wneud darpariaeth bellach

96. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol (gan gynnwys drwy ddiwygio deddfiad) ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer dyroddi hysbysiadau rhagarweiniol a hysbysiadau codi treth; talu swm o dreth y mae hysbysiad codi treth yn ei godi; ac unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â chodi treth neu dalu swm o dreth o dan y bennod hon, neu'n deillio o hynny.

Adran 53 – Llog taliadau hwyr

97. Mae'r adran hon yn diwygio adran 157 o DCRhT i sicrhau y gellir codi llog taliadau hwyr pan na fo treth sy'n ddyledus o dan hysbysiad codi treth, a ddyroddir o dan adran 49 neu 50, wedi ei thalu.

Pennod 5 – Darpariaeth Atodol

Pennod 1 – Credydau Treth

Adran 54 – Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer credydau treth

98. Mae adran 54 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi dan ba amgylchiadau y bydd gan berson hawlogaeth i gredyd treth mewn perthynas â TGT, yn ddarostyngedig i fodloni a dilyn unrhyw amodau a gweithdrefnau a bennir.
99. Rhagwelir y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio, er enghraifft, i ganfod hawlogaeth i gredyd mewn sefyllfaoedd pan fo gweithredwr safle tirlenwi:
- wedi anfonebu cwsmer yn briodol mewn perthynas â gwarediad trethadwy a wnaed;
 - wedi rhoi cyfrif am y gwarediad hwnnw, ac wedi talu TGT arno, i ACC yn y cyfamser; ac
 - yna wedi darganfod bod y cwsmer wedi mynd yn fethdalwr ac na ellir adennill y ddyled.
100. Yn yr enghraifft a amlinellir uchod, gallai'r rheoliadau nodi'r amodau y byddai'n ofynnol i weithredwr y safle tirlenwi eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i wneud cais am gredyd, gan gynnwys manylion y cofnodion neu'r dystiolaeth ategol sydd eu hangen. At hynny, gallai'r rheoliadau esbonio sut y byddai gweithredwr y safle tirlenwi yn mynd ati i hawlio'r credyd hwnnw: gallai hynny fod drwy ddiwynnu'r swm o gyfanswm y dreth sy'n ddyledus ar ffurflen dreth TGT gyfredol neu ar ffurflen o'r fath yn y dyfodol.
101. Caiff rheoliadau hefyd nodi dan ba amgylchiadau y caiff ACC wrthod hawliad am gredyd treth, a'r ffordd y gall person herio penderfyniad a wneir gan ACC ynghylch credyd treth. Caiff rheoliadau bennu cosbau a allai fod yn gymwys pe bai credyd yn cael ei hawlio mewn modd sy'n groes i'r gofynion a nodir yn y rheoliadau.

Section 52 – Power to make further provision

96. Regulations may make further or different provision (including by amending an enactment) about the procedures for issuing preliminary notices and charging notices; the payment of an amount of tax charged by a charging notice and; any other matters relating to or arising from the charging or payment of an amount of tax under this chapter.

Section 53 - Late payment interest

97. This section amends section 157 of TCMA so as to ensure that late payment interest can be charged where tax owed under a charging notice, issued under section 49 or 50, has not been paid.

Part 5 - Supplementary Provision

Chapter 1 – Tax Credits

Section 54 – Power to make provision for tax credits

98. Section 54 gives the Welsh Ministers the power to make regulations setting out circumstances in which a person will be entitled to a tax credit in relation to LDT, subject to any specified conditions and procedures being met and followed.
99. It is envisaged that this power will be used, for example, to establish an entitlement to credit in situations where a landfill site operator:
- has properly invoiced a customer in relation to a taxable disposal that has been made;
 - has meanwhile accounted for and paid LDT on that disposal to WRA; and
 - has then discovered that the customer has become insolvent and that the debt cannot be recovered.
100. In the example outlined above, regulations might set out the conditions that the landfill site operator would be required to meet in order to be eligible to apply for a credit, including details of the records or supporting evidence needed. Further, the regulations might explain how the landfill site operator would go about claiming the credit: this might be through deducting the amount from the overall tax owed in an existing or future LDT return.
101. Regulations may also set out the circumstances in which WRA may refuse a claim for a tax credit and the way in which a person can challenge a decision taken by WRA about a tax credit. Regulations can set penalties that could apply if a credit were claimed contrary to the requirements set out in the regulations.

Pennod 2 – Mannau nad ydynt at Ddibenion Gwaredu

Adran 55 – Dynodi Man nad yw at Ddibenion Gwaredu

102. Caiff man nad yw at ddibenion gwaredu ei chreu ar safle tirlenwi awdurdodedig naill ai oherwydd bod gweithredwr y safle tirlenwi yn gwneud cais i greu man nad yw at ddibenion gwaredu neu oherwydd bod ACC yn ei gwneud yn ofynnol i fan o'r fath gael ei greu.
103. Mae'r adran hon yn caniatáu i ACC ddynodi rhan o safle tirlenwi awdurdodedig yn fan nad yw at ddibenion gwaredu drwy ddyroddi hysbysiad i weithredwr y safle. Fe'i bwriedir i alluogi ACC i wahaniaethu rhwng y gweithgarwch hwnnw ar safle tirlenwi a ystyrir yn warediadau trethadwy a'r dulliau hynny o ddefnyddio gwastraff nad ydynt yn drethadwy. Mae hyn yn bwysig i ganfod yr atebolrwydd cywir o ran treth.
104. Mae is-adran (3) yn nodi'r wybodaeth y caiff ACC ei phennu neu y mae'n rhaid iddo ei phennu yn yr hysbysiad dynodi i alluogi gweithredwr y safle tirlenwi i reoli'r man nad yw at ddibenion gwaredu. Ymhlith pethau eraill, rhaid i ACC nodi pa ddeunydd y mae'n rhaid ei ddodi mewn man a chaiff hefyd nodi pa ddeunydd na chaniateir ei ddodi mewn man; er enghraifft, gallai ACC ddyroddi hysbysiad sy'n nodi na chaniateir dod deunydd cyfradd safonol mewn man nad yw at ddibenion gwaredu lle y mae deunydd cymwys yn cael ei storio.
105. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff yr hysbysiad gynnwys amodau neu eithriadau ac y caiff wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol. Er enghraifft, gallai amod ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y safle tirlenwi weithredu mewn ffordd sy'n dderbyniol o dan delerau ei drwydded amgylcheddol. Mae'r ddarpariaeth hon yn darparu hyblygrwydd i alluogi ACC i addasu dynodiad man nad yw at ddibenion gwaredu fesul achos, gan gydnabod bod pob safle tirlenwi yn wahanol.
106. Mae is-adrannau (5) i (7) yn rhoi pŵer i ACC amrywio neu ddileu hysbysiad dynodi ac yn nodi'r broses ar gyfer gwneud hynny. Yn yr un modd â dynodiad gwreiddiol man nad yw at ddibenion gwaredu, gall amrywio neu ddileu dynodiad ddeillio o ganlyniad i gais gan weithredwr y safle tirlenwi, neu gall ACC ei ysgogi.
107. Rhaid i geisiadau i wneud, i amrywio neu i ddileu hysbysiad dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig a chaiff ACC bennu ffurf, cynnwys a dull danfon hysbysiad o'r fath (o dan adran 191 o DCRhT). Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol i ACC ddyroddi hysbysiad i weithredwr y safle tirlenwi os yw ACC yn gwrthod cais i wneud, i amrywio neu i ddileu hysbysiad dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu.
108. Caiff rheoliadau ddiwygio'r adran hon i wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch yr hyn sydd i'w gynnwys mewn hysbysiad a ddyroddir o dan yr adran hon.

Chapter 2 - Non-Disposal Areas

Section 55 – Designation of Non-Disposal Area

102. A non-disposal area will be created on an authorised landfill site either because the landfill site operator makes an application for a non-disposal area to be created or because WRA requires the creation of such an area.
103. This section allows WRA to designate a part of an authorised landfill site as a non-disposal area by issuing a notice to the operator of the site. This is intended to enable WRA to distinguish between those activities on a landfill site which constitute taxable disposals and those which are non-taxable uses of waste. This is important to determine the correct tax liability.
104. Subsection (3) sets out the information WRA may or must specify in the designation notice to enable the landfill site operator to manage the non-disposal area. Amongst other things, WRA must state what material has to be placed in an area and may also state what material must not be placed in an area; for example, WRA could issue a notice stating that standard rate material must not be placed in a non-disposal area in which qualifying material is being stored.
105. Subsection (4) provides that the notice may include conditions or exceptions and may make different provision for different cases. A condition could for example, require the landfill site operator to act in a way that is acceptable under the terms of its environmental permit. This provision provides flexibility to enable WRA to adapt a non-disposal area designation on a case by case basis, recognising that every landfill site is different.
106. Subsections (5) to (7) give WRA power to vary or cancel a designation notice and sets out the process for doing so. As with the original designation of a non-disposal area, a variation or cancellation can arise as a result of an application from the landfill site operator or can be instigated by WRA.
107. Applications to make, vary or cancel a non-disposal area designation notice must be made in writing and WRA may specify the form, content and manner of delivery of such a notice (under section 191 of TCMA). Subsection (9) requires WRA to issue a notice to the landfill site operator if it refuses an application to make, vary or cancel a non-disposal area designation.
108. Regulations may amend this section to make further or different provision about the contents of a notice issued under this section.

Adran 56 – Dyletswyddau gweithredwr mewn perthynas â man nad yw at ddibenion gwaredu

109. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar weithredwyr safleoedd tirlenwi i gydymffurfio â thelerau hysbysiad dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu. Mae is-adrannau (2) i (4) yn nodi'r amgylchiadau pan na fydd y ddyletswydd hon yn gymwys. Mae hyn yn cynnwys achosion pan fo deunydd yn cael ei waredu yn rhywle arall ar y safle, fel y nodir yn is-adran (2), a phan fo deunydd a gludir i'r safle yn cael ei waredu neu ei symud o'r safle tirlenwi ar unwaith (er enghraifft, am ei fod yn llwyth wedi ei rannu), fel y nodir yn is-adran (3). Mae is-adran (4) yn darparu'r hyblygrwydd i ACC gytuno i ddeunydd gael ei drin mewn modd nad yw'n unol â thelerau'r dynodiad mewn achosion penodol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys sefyllfa pan fo llwyth llog yn cyrraedd y safle tirlenwi a bod angen ei drin ar unwaith.
110. Mae is-adran (5) yn caniatáu i gytundeb gan ACC o dan is-adran (4) fod yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau. Mae is-adran (5)(b) yn ystyried yn benodol y caiff cytundeb o'r fath ymwneud â storio symiau mawr o ddeunydd tebyg (y cyfeirir ato yn aml fel gwastraff swmpus), ac mae'n galluogi ACC i gytuno i drin symudiadau o'r man fel symudiadau gwastraff a storiwyd ynghynt.

Adran 57 - Dyletswyddau i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel

111. Mae is-adrannau (1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y safle tirlenwi gadw cofnodion priodol o ddeunydd mewn man nad yw at ddibenion gwaredu i dystio bod y man nad yw at ddibenion gwaredu yn cael ei weithredu yn unol â'r hysbysiad dynodi a wnaed o dan adran 55(3). Caiff ACC bennu ffurf a chynnwys cofnodion o'r fath.
112. Rhaid storio'r cofnodion yn ddiogel hyd ddiwedd y cyfnod o 6 mlynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff y deunydd ei symud o'r man nad yw at ddibenion gwaredu, neu'r dyddiad y mae'n peidio â bod yn ddeunydd o ddisgrifiad y mae'n rhaid ei ddodi yn y man, pa un bynnag sydd gynharaf. Caiff cytundeb o dan adran 56(4)(a) bennu dyddiad gwahanol y bydd y cyfnod o 6 mlynedd yn dechrau, a allai, er enghraifft, gael ei ddefnyddio mewn achosion sy'n ymwneud â storio gwastraff swmpus.
113. Mae cosbau yn gysylltiedig â'r gofynion o ran y manau nad ydynt at ddibenion gwaredu yn adrannau 56 a 57. Nodir y cosbau hyn yn adrannau 68 a 69 o'r Ddeddf.

Adran 58 – Adolygiadau ac apelau sy'n ymwneud â dynodi manau nad ydynt at ddibenion gwaredu

114. Mae'r adran hon yn mewnosod penderfyniad sy'n ymwneud â dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu (gan gynnwys mewn perthynas â'i amrywio neu ei ddileu) yn y rhestr o benderfyniadau y gellir eu hadolygu a/neu apelio yn eu herbyn yn unol â'r darpariaethau yn Rhan 8 o DCRhT.

Section 56 – Duties of operator in relation to non-disposal area

109. Subsection (1) puts a duty on landfill site operators to comply with the terms of a non-disposal area designation notice. Subsections (2) to(4) set out the circumstances in which this duty will not apply. This includes cases where material is disposed of elsewhere on the site, as set out at subsection (2), and where material brought onto the site is being immediately disposed of or removed from the landfill site (for example, because it is a split load), as set out at subsection (3). Subsection (4) provides WRA with the flexibility to agree to material being treated in a way that is outside of the terms of the designation in particular cases. This could, for example, include a situation where a burning load arrives at the landfill site and needs to be immediately treated.
110. Subsection (5) allows an agreement by WRA under subsection (4) to be unconditional or subject to conditions. Subsection (5)(b) specifically contemplates that such an agreement may relate to the issue of storage of large amounts of similar material (often referred to as bulk waste), and enables WRA to agree to treat removals from the area as movements of earlier stored waste.

Section 57 - Duty to keep and preserve records

111. Subsections (1) and (2) require the landfill site operator to keep appropriate records of material in a non-disposal area to evidence that the non-disposal area is being operated in accordance with the designation notice made under 55(3). WRA can specify the form and contents of such records.
112. Records must be preserved until the end of the period of 6 years beginning with the date on which the material is removed from the non-disposal area, or ceases to be material of a description that must be deposited in the area, whichever is earlier. An agreement under section 56(4)(a) may specify a different date from which the period of 6 years begins, which could, for example, be used in cases involving the storage of bulk waste.
113. There are penalties associated with the non-disposal area requirements in sections 56 and 57. These are set out in sections 68 and 69 of the Act.

Section 58 – Reviews and appeals relating to non-disposal areas

114. This section inserts a decision relating to the designation of a non-disposal area (including in relation to its variation or cancellation) into the list of decisions that can be reviewed and/or appealed in accordance with the provisions in Part 8 of TCMA.

Pennod 3 – Ymchwilio a Gwybodaeth

Adran 59 – Pwerau archwilio

115. Mae adran 59 yn gwneud diwygiadau i Bennod 4 o Ran 4 (Pwerau Ymchwilio ACC: Archwilio Mangreoedd ac Eiddo Arall) o DCRhT at ddibenion TGT. Dylid darllen yr adran hon o'r Ddeddf a'r nodiadau hyn ar y cyd â Phennod 4 o Ran 4 o DCRhT a'r nodiadau esboniadol (paragraffau 117 i 142) sy'n mynd gyda DCRhT.
116. Mae adran 103A o DCRhT (a fewnosodir gan y Ddeddf hon) yn darparu y gall ACC fynd i fangreoedd busnes trydydd partïon ac archwilio'r mangreoedd hynny (gan gynnwys yr asedau busnes a'r dogfennau busnes perthnasol sydd yn y mangreoedd) i gadarnhau rhwymedigaeth gweithredwr safle tirlenwi i dalu TGT. Diffinnir mangreoedd busnes yn adran 111 o DCRhT. Ni chaiff ACC ond archwilio dogfennau sy'n ymwneud â materion sy'n berthnasol i rwymedigaeth gweithredwr y safle tirlenwi i dalu TGT. Ni cheir arfer y pwerau hyn ond pan fo gan ACC reswm i gredu:
- bod person wedi ymwneud â gwarediad trethadwy yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth (gall hyn gynnwys gorsaf trosglwyddo gwastraff neu gludydd gwastraff); a
 - bod yr archwiliad yn ofynnol er mwyn helpu ACC i gadarnhau rhwymedigaeth person arall i dalu TGT.
117. Gall methu â chaniatáu i ACC archwilio o dan y pŵer hwn arwain at gosb o dan adran 146 o DCRhT.
118. Rhagwelir y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio gan ACC pan fo ganddo reswm i gredu bod gweithredwr safle tirlenwi wedi darparu hunanasesiad nad yw'n gofnod cywir o'i rwymedigaeth i dreth, a phan fyddai archwilio mangre busnes y trydydd parti o gymorth i unrhyw ymchwiliad cysylltiedig. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o drydydd partïon yn cydweithredu'n wirfoddol mewn ymchwiliadau o'r fath heb fod angen i ACC ddefnyddio'r pŵer hwn.
119. Mae adran 103B o DCRhT (fel y'i mewnosodir gan y Ddeddf hon) yn darparu, pan fo ACC yn ymchwilio i warediad heb ei awdurdodi (hynny yw, gwarediad trethadwy a wneir yn rhywle heblaw safle tirlenwi awdurdodedig - gweler Rhan 4), y gall ACC fynd i eiddo, gan gynnwys eiddo nad yw'n fangre busnes, a chynnal archwiliad (gan gynnwys archwilio asedau a dogfennau sydd yn y fangre) os oes gan ACC reswm i gredu:
- bod gwarediad wedi digwydd yn y fangre; neu
 - bod y meddiannydd yn bodloni, neu y gallai fodloni, yr amod codi tâl (gweler adran 47) mewn perthynas â TGT ar y gwarediad sy'n destun yr ymchwiliad.
120. Bydd y pŵer hwn yn galluogi ACC i ymchwilio i warediadau heb eu hawdurdodi er mwyn penderfynu a ddylid dyroddi hysbysiad rhagarweiniol neu hysbysiad codi treth o dan Bennod 2 o Ran 4 o'r Ddeddf. Eto, gall methu â chaniatáu i ACC archwilio o dan y pŵer hwn arwain at gosb o dan adran 146 o DCRhT.

Chapter 3 – Investigation and Information

Section 59 - Powers of inspection

115. Section 59 makes amendments to Part 4, Chapter 4 (Investigatory Powers of WRA: Inspections of Premises and Other Property) of TCMA for the purposes of LDT. This section of the Act and these notes should be read in conjunction with Part 4, Chapter 4 of TCMA and the explanatory notes (paragraphs 117 to 142) which accompany TCMA.
116. Section 103A of TCMA (as inserted by this Act) provides that WRA can enter and inspect a business premises (including business assets and relevant business documents that are on the premises) of a third party to check a landfill site operator's liability to LDT. Business premises are defined in section 111 of TCMA. WRA may only inspect documents which relate to matters relevant to the landfill site operator's liability to LDT. These powers can be exercised only if WRA has reason to believe that:
- a. A person has been involved in any capacity with a taxable disposal (this may include a waste transfer station or a waste carrier); and
 - b. The inspection is required in order to help WRA to check the position of another person's liability to LDT.
117. Failure to permit WRA to inspect under this power can give rise to a penalty under section 146 of TCMA.
118. It is envisaged that this power will be used by WRA where they have reason to believe that a landfill site operator has provided a self-assessment that is not a true reflection of their liability to tax, and where inspecting the third party's business premises would assist any connected investigation. It is anticipated that most third parties will co-operate voluntarily in such investigations without WRA needing to invoke this power.
119. Section 103B of TCMA (as inserted by this Act) provides that where WRA is investigating an unauthorised disposal (i.e. is a taxable disposal made other than at an authorised landfill site - see Part 4), WRA can enter property, including non-business premises, and carry out an inspection (including an inspection of assets and documents that are on the premises) if WRA has reason to believe that:
- a. A disposal has occurred at the premises; or
 - b. The occupier meets or may meet the charging condition (see section 47) in relation to LDT on the disposal that is being investigated.
120. This power will enable WRA to investigate unauthorised disposals in order to decide whether to issue a preliminary notice or charging notice under Part 4, Chapter 2 of the Act. Again, failure to permit WRA to inspect under this power can give rise to a penalty under section 146 of TCMA.

121. Ceir nifer o fesurau diogelwch ym Mhennod 4 o DCRhT sydd yr un mor gymwys i ddefnydd ACC o'i bwerau archwilio mewn perthynas â TGT. Er enghraifft, mae adran 103(2) o DCRhT yn nodi na all ACC ond arfer ei bwerau archwilio gyda chytundeb meddiannwr y fangre neu gymeradwyaeth y Tribiwnlys. Mae Atodlen 4 o'r Ddeddf hon yn diwygio adran 108(4) o DCRhT i sicrhau na chaiff y tribiwnlys gymeradwyo archwilio mangreoedd:
- onid yw ACC yn gallu bodloni'r tribiwnlys y bodlonir y gofyniad cymwys yn adran 108(4A) o DCRhT; a
 - mewn achos pan fo ACC wedi gwneud cais am gymeradwyaeth y tribiwnlys heb ddyroddi hysbysiad o'r cais i'r trethdalwr neu feddiannydd y fangre, onid yw ACC hefyd yn gallu bodloni'r tribiwnlys y gallai rhoi hysbysiad ymlaen llaw o'r cais i'r trethdalwr lesteirio asesu a chasglu treth.
122. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud nifer o fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i DCRhT at ddibenion TGT.

Adran 60 - Datgelu gwybodaeth i ACC

123. Mae adran 60 yn caniatáu i wybodaeth a geir gan awdurdodau lleol yng Nghymru neu Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gael ei datgelu i ACC i helpu ACC i gasglu a rheoli TGT, ac ymchwilio i atebolrwydd i dreth pan fo hynny'n angenrheidiol.
124. Nid yw adran 60 yn awdurdodi datgelu gwybodaeth i ACC pe byddai'r datgelu yn groes i Ddeddf Diogelu Data 1998 neu os yw wedi ei wahardd gan adrannau perthnasol o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016.
125. Rhagwelir y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio pan fo awdurdod lleol neu CNC, fel rhan o'u swyddogaethau o ddydd i ddydd, yn nodi unrhyw weithgarwch, megis gwarediad heb ei awdurdodi, a allai arwain at rwymedigaeth i dalu TGT. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i'r cyrff hynny drosglwyddo gwybodaeth sy'n ymwneud â'r gweithgarwch ac unrhyw rwymedigaeth bosibl gysylltiedig i ACC fel y gellir ei defnyddio mewn ymchwiliad trethi neu gamau gorfodi trethi.
126. Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau bennu unigolion eraill neu sefydliadau eraill y caniateir iddynt rannu gwybodaeth gydag ACC o dan yr adran hon. Gallai'r rhain gynnwys cyrff cyhoeddus megis Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, er enghraifft.
127. Ni ragwelir y bydd awdurdodau lleol nac CNC yn rhannu gwybodaeth fel mater o drefn gydag ACC ynghylch safleoedd tirlenwi awdurdodedig a'u gweithredwyr. Dylai'r gweithredwyr hyn eisoes fod yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arno i ACC drwy'r system gofrestru trethi a'u ffurflenni treth rheolaidd. Fodd bynnag, pan fo awdurdodau lleol neu CNC yn credu y gallai'r wybodaeth fod o ddiddordeb i ACC mewn perthynas â chasglu neu reoli'r dreth, gall fod yn bosibl i rannu'r wybodaeth hon gydag ACC, ac fe all hyn arwain at ymchwiliad trethi.

121. There are a number of safeguards within Chapter 4 of TCMA which apply to WRA's use of its inspection powers in relation to LDT. For example, section 103(2) of TCMA states that WRA may only exercise its inspection powers with the agreement of the occupier of the premises or the approval of the Tribunal. Schedule 4 of this Act amends section 108(4) of TCMA to ensure that the tribunal may approve the inspection of premises:
- a. Only where WRA can satisfy the tribunal that the applicable requirement in section 108(4A) of TCMA is met; and
 - b. In a case where WRA has applied for the tribunal's approval without giving notice of the application to the taxpayer or occupier of the premises, only where WRA can also satisfy the tribunal that giving the taxpayer prior notice of the application might hinder the assessment and collection of tax.
122. This section also makes a number of minor and consequential amendments to TCMA for the purposes of LDT.

Section 60 – Disclosure of information to WRA

123. Section 60 allows information acquired by local authorities in Wales or Natural Resources Wales (NRW) to be disclosed to WRA to help WRA collect and manage LDT, and to investigate liability to tax where necessary.
124. Section 60 does not authorise the disclosure of information to WRA if the disclosure would contravene the Data Protection Act 1998 or is prohibited by relevant sections of the Investigatory Powers Act 2016.
125. It is envisaged that this power of disclosure may be used where, as part of their day-to-day functions, a local authority or NRW identifies any activity, such as an unauthorised disposal, which could give rise to a liability to LDT. This power allows these bodies to pass on information relating to the activity and any associated potential liability to WRA so that it can be used in a tax investigation or tax enforcement action.
126. The Welsh Ministers may by regulations specify other individuals or organisations that are allowed to share information with WRA under this section. These could, for example, include public bodies such as National Park Authorities.
127. It is not envisaged that local authorities and NRW will routinely share information with WRA about authorised landfill sites and their operators. These operators should already be providing WRA with all of the information it needs through the tax registration system and their regular tax returns. However, where local authorities or NRW believe that information may be of interest to WRA in relation to the collection or management of the tax, it may be possible for this information to be shared with WRA, and this may lead to a tax investigation.

128. Mae Rhan 2 o DCRhT yn ymdrin â defnyddio a datgelu gwybodaeth a gedwir gan ACC, ac mae'n cynnwys darpariaeth arbennig i ddiogelu datgelu gwybodaeth a ddiogelir ynghylch trethdalwr. Mae'r rheolau hyn yn caniatáu i wybodaeth sensitif ynghylch trethdalwr a gedwir gan ACC gael ei datgelu i bersonau eraill neu i sefydliadau eraill o dan amgylchiadau penodedig yn unig. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys pan fo'r datgeliad yn cael ei wneud at ddibenion ymchwiliad troseddol neu achos troseddol, neu er mwyn atal neu ganfod trosedd, neu i gynorthwyo mewn achosion sifil.

Pennod 4 - Cosbau o dan y Ddeddf hon

129. Y terfyn amser ar gyfer asesu'r rhan fwyaf o'r cosbau o dan y Ddeddf hon yw 12 mis, gan ddechrau â'r diwrnod yr oedd ACC yn credu am y tro cyntaf fod y person wedi torri'r gofyniad perthnasol, neu wedi methu â chydymffurfio ag ef. Yn achos cosbau dyddiol am fynd yn groes i'r gofynion cofrestru, rhaid asesu'r gosb o fewn y cyfnod o 12 mis gan ddechrau â'r diwrnod y mae'r gosb yn berthnasol iddi.

Adrannau 61 i 63 - Cosbau sy'n ymwneud â chyfrifo pwysau trethadwy deunydd

130. Mae adran 61 yn darparu bod gweithredwr safle tirlenwi sy'n methu â phennu pwysau deunydd mewn gwarediad trethadwy yn unol ag adran 20 yn agored i gosb nad yw'n fwy na £500 mewn cysylltiad â phob gwarediad trethadwy y mae'r methiant yn ymwneud ag ef.
131. Pan fo gweithredwr safle tirlenwi yn cymhwyso disgownt heb fod â chymeradwyaeth i wneud hynny o dan adran 21, neu'n cymhwyso disgownt sy'n fwy na'r disgownt a gymeradwyir o dan adran 21, mae adran 62 yn darparu bod gweithredwr y safle tirlenwi yn agored i gosb nad yw'n fwy na £500 mewn cysylltiad â phob gwarediad trethadwy y cymhwysir disgownt iddo yn y naill neu'r llall o'r ffyrdd hynny.
132. Mae adran 63 yn caniatáu cyfuno asesiad o gosb ag asesiad treth, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i asesiad o gosb gael ei wneud o fewn 12 mis i'r adeg yr oedd ACC yn credu am y tro cyntaf fod y gweithredwr yn agored i gosb.
133. Mae'r cosbau hyn yn gymwys i weithredwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig yn unig.

Adrannau 64 i 67 - Cosbau sy'n ymwneud â chofrestru

134. Mae adran 64 yn darparu bod person sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy heb fod yn gofrestredig yn agored i gosb o £300 (y "gosb gofrestru"). Pan fo person yn parhau i gyflawni gweithrediadau trethadwy, heb fod yn gofrestredig, 10 o ddiwrnodau ar ôl dyroddi yr hysbysiad am y gosb gofrestru, bydd y person hwnnw yn agored i gosb bellach neu gosbau pellach nad yw neu nad ydynt yn fwy na £60 am bob diwrnod y mae'n parhau i wneud hynny.
135. Mae adran 65 yn nodi eithriad i'r rheolau hyn. Pan fo person yn cyflawni gweithrediadau trethadwy heb fod yn gofrestredig, gan dorri adran 35, mae'n darparu na fydd y person hwnnw yn agored i gosb o dan adran 64 os yw'n gallu bodloni ACC neu (drwy apel) y tribiwnlys bod esgus rhesymol am y toriad.

